

ECO'R WYDDFA

Rhif 37

MAI 1979

Pris: 12c

ECO'R ETHOLIADAU

DYMA'R rhifyn olaf o'r Eco cyn yr Etholiad Gyffredinol a'r Etholiadau Cyngor Dosbarth. Fel y gwelwch o ddarllen y rhifyn hwn rydym wedi rhoi sylw arbennig i'r holl ymgeiswyr. Mae'r tudalennau canol, er enghraifft, wedi eu neilltuo i'r pedwar ymgeisydd seneddol yn bennaf. Ceisiwyd rhannu y wybodaeth am yr etholiadau dosbarth i'r tudalennau sy'n cynnwys y newyddion lleol am bentrefi'r ymgeiswyr.

TALENT GERDDOROL . . .


UNIGOL

MAE Annette Bryn Roberts, merch Mr a Mrs E. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, wedi ei derbyn i goleg cerdd y 'Royal Northern' ym Manceinion.

Mae hyn yn glod arbennig iddi hi a'i theulu ac hefyd yn deyrnged i'w hathrawes piano, Mrs Rhianwen Gabrielson, A.R.C.M., L.R.A.M. o Ddwygyfylchi. Nid yw Annette, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ond un ar bymtheg oed.

Mae'n ymddangos bod Annette yn dilyn yr un camau â chyn-ddisgybl gerddorol arall o Ysgol Brynrefail fu'n astudio yn yr un coleg ym Manceinion. Cyfeiriad yw hwn at Mrs Megan Roberts (Thomas gynt) o Lanrug sy'n athrawes gerddoriaeth, ac yn gantores a thelynores o fri.

Bydd Annette yn y coleg am bedair blynedd o fis Medi nesaf yn astudio cerddoriaeth yn gyffredinol. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau'r ardal iddi.



CYFRES I HOGIA'R WYDDFA

MAE'N bleser gan Eco'r Wyddfa gyhoeddi fod y B.B.C. yn recordio chwech o raglenni gan Hogia'r Wyddfa yn Theatr Seilo Caernarfon. Dymuniad Hogia'r Wyddfa oedd cael recordio y rhaglen mor agos i'w bro ag oedd yn bosibl ac fe gytunodd cynhyrchydd y rhaglen, Mr Rhydderch Jones, fod Theatr Seilo yn fan delfrydol.

Gwesteion yr Hogia fydd Eleri Llwyd, Leah, Rosalind, Dafydd Iwan, John Ogwen a'r Diliau.

Bwriada'r B.B.C. recordio'r rhaglenni ar Fai 17, 18 ac 19 ac yna ar Fehefin 28, 29, 30.

LLUOSOG



DYMA 'Tumbledownwind' grŵp o fechgyn lleol sy'n prysur gwneud enw iddynt eu hunain ym myd y canu gwledig gorllewinol.

Hwy a ddyfarnwyd yn orau drwy Gymru a'r gororau mewn gŵyl arbennig yn Wrecsam yn ddiweddar.

Yn sgîl y fuddugoliaeth hon cawsant ymddangos mewn Gŵyl 'Wledig' Ryngwladol yn yr 'Empire Pool', Wembley yn Llundain. 'Roedd grwpiau o bob rhan o wledydd Prydain yn cystadlu. Er na lwyddasant i gipio'r brif wobwr gwnaeth y bechgyn yn dda iawn.

Er bod y bechgyn i gyd yn lleol i bob pwrpas, dim ond un ohonynt sydd yn byw yn ardal yr Eco — sef Eric Jones, 17 Bryntirion, Penisarwaun (ochr dde, gwaelod y llun). Daw aelod arall, sef Evan Jones (canol y llun) yn wreiddiol o Lanberis. Y cysylltiad lleol yw'r ffaith mai ym Mhenisarwaun y mae'r grŵp yn ymarfer.

Yr aelodau eraill yw Mal Lloyd, Tony Jones a Dave Roberts. Daliwch ati hogia a phob llwyddiant yn y dyfodol.

Yr Eco'n mynd o nerth i nerth

CYNHALIWDYD cyfarfod cyffredinol Eco'r Wyddfa yn ysgol gynradd Penisarwaun ar 22 Mawrth. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Arwel Jones, Golygydd Erthyglau yr Eco.

Siomedig iawn fu'r ymateb i'r cyfarfod o safbwynt y cyhoedd — ond daeth y ffyddloniaid ynghyd a chafwyd trafodaethau gwerth chweil.

Cafwyd arolwg ar y flwyddyn ac adroddiadau gan bedwar o olygyddion yr Eco, ynghyd ag adroddiadau trefnyddion a swyddogion.

Yn ei adroddiad dywedodd Mr Twrog Jones, Golygydd Newyddion Cyffredinol, mai ei brif gyfrifoldeb oedd y deunydd a ymddangosai ar y dudalen flaen. Teimlai fod rhai ardaloedd yn ymddangos yn amlach nag eraill ar y dudalen flaen. Diolchai am frwdfrydedd yr unigolion yn yr

ardaloedd hynny oedd yn ymwybodol o'r math o stori flaen y gellid ei defnyddio. Ar yr un pryd mae am wneud apêl gyffredinol drwy'r Eco ar i fwy o gyfeillion adael iddo wybod os oes deunydd storiâu blaen yn eu hardaloedd.

Mynegodd Mr Tony Eliot, Golygydd Newyddion Pentrefi ei ddiolch i'r gohebwyd am eu gweithgarwch. Collwyd rhai gohebwyd yn ystod y flwyddyn a chroesawyd rhai newydd. Mae eu cyfraniadau i'r Eco yn amhrisiadwy.

Apeliodd Mr Dafydd Evans, Golygydd Chwaraeon yr Eco am

(Parhad ar dud. 15)

ECO'R WYDDFA

RHIF 37 MAI 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwynndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHANT: Selwyn
Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 3577)

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHANT POST :
Mrs. M. Evans, "Lloc," Llanrug.

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waun-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon,
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

ALLWEDD CAR

Wedi dod o hyd i allwedd car rhif
LF92343. Ffôn Llanberis 533.

AR WERTH

Fel newydd, rac to i gar. Ffôn:
Llanberis 578.

1 Beic i ferch 9-11 oed; 1 Beic i
ferch 6-9 oed ac 1 Beic i fachgen
neu ferch 5 i 7 oed - Ffôn: Y
Felinheli 670861

Wardrobe sengl fodern (pren
golau) - £8. - 4, Nant-y-glyn,
Llanrug.

LLYTHYRAU



Sylwch ar y Pontrhythallt Road

MOUNTAIN VIEW — ACHAFI!

Llain Gwta,
Llanrug.

Annwyl Syr,

Fel un â'i wreiddiau'n ddwfn yn
naear godre'r Cefn Du ac a
ddychwelodd yn ddiweddar o'm
crwydro ers deng mlynedd ar
hugain, trawyd finnau gan
ddieithrwch rhai o'r enwau ar
lecynnau a ffyrdd. I ble'r aeth
enwau cartrefol fel y Lôn Bost a'r
Lôn Bellaf. Gwir y dywed Mrs.
G.M. Jones yn rhifyn Ebrill o'r
Eco ac ategaf bob gair o'i heiddo.
Dylid cael enwau cartrefol
Gymreig i'r stadau newydd ac
adfer yr hen enwau neu fathu rhai
addas ar gyfer y ffyrdd. Beth
fuasai o'i le ar Ffordd Penrhos
sy'n arwain o Gapel Rhos Rug at
y Pontydd? Ffordd Eiddon yn
torri ar draws i Ffordd Crawiau;
Ffordd Castell o Groeslon 'Refail
i fyny at y Bryngwyn gan mai ar
ochr hon oedd Castell Moelyn yn
nechrau'r ganrif o'r blaen. I Afon
Rhos y mae'r lôn heibio Glan

Ffynnon yn mynd a Lon Afon
Rhos yr arferid ei galw ers talwm.

Yn ôl gweithredoedd tai
'Mountain View' nid dyna oedd
cynnig gwreiddiol yr adeiladydd,
ond 'Snowdon View' nes y deall-
odd fod yna dŷ gyda'r enw
hwnnw mewn bodolaeth eisoes.
Felly hap a damwain a'i cymhell-
odd i enwi y stad fel y gwnaeth.
Gallwn feddwl am amryw enwau
a gyflea'i yr un syniad yn Gymraeg
heb lusgo y cyfieithiad 'Trem' i'r
enw. Beth am 'Arfynydd' sydd yn
wreiddiol o'r Hen Ganu Cynnar
Aneirin, neu 'Cilfynydd' fel yr
enw ger Pontypridd?

Gan fod amryw leoedd heb eu
dynodi ag enwau swyddogol, oni
fyddai trefnu i rai o'r brodorion
gyngori y Cyngorydd Lleol ar
Fwrdeisdref Arfon a'u cyflwyno
i'r Pwyllgor addas gyda chyd-
syniad trigolion y rhannau hynny
o'r ardal?

Yn gywir,

Robert Williams.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvonias Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

Ffordd Bont- rhythallt?

Parc Isaf,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,
Diddorol oedd darllen llythyr
Mrs W.A. Jones, ynglŷn ag enw
Station Road.

Amgaeaf gerdyn post a
anfonodd ei gyfaill Owen Roberts
Eryri (Now Rob) i 'nhad pan oedd
yn America yn 1911, sydd yn
dangos mai Pontrhythallt Road y
gelwid y ffordd yr adeg honno.

Beth am fabwysiadu'r enw
Ffordd Pontrhythallt unwaith eto,
neu beth am Ffordd y Bont?

Yn gywir,
Emlyn Jones.

FFORDD Y RHOS
yn lle
STATION ROAD

I Gorffwysfa,
Llanrug.

Annwyl Syr,

Fel un sydd wedi ei geni a'i
magu yn Bron Eryri, Llanrug yn
1909 ac yn byw yn 1 Gorffwysfa
rwan hoffwn roi enw Ffordd y
Rhos ar Station Road. Mae Llan-
rug wedi cael ei adeiladu ar y
Rhos, a dyma enwau rhai o'r Tai
a'r Capel, sydd ar hyd y Ffordd
o'r Post i lawr i'r Bont.

(Capel y Rhos), Rhos Elan, Min
y Rhos, Pen Rhos, Parc y Rhos,
Rhos-rug, a Rhos-ddu, mae Cae
Rhos, Afon Rhos, Rhoslan a
Phenisa'r Rhos, ochr arall i'r
ffordd.

Yn gywir,
Jennie M. Jones (Mrs.)

2 Cremlyn,
Bethel.

BRWYDRO YMLAEN

Dafydd Wigley eto'n cynnig
Ei wasanaeth i ni'n awr,
I gael cario 'mlaen â'r frwydr
Draw yn Senedd Prydain Fawr.
Sefyll yno wnaiff yn gadarn,
Ei holl ddadlau fydd yn gry',
Nes y gwelwn yr Eryri'n
Clirio'r holl gymylau du.

Mae diweithdra heddiw'n Arfon,
Hogiau ifanc heb ddim gwaith,
Llawer henoed mewn dioddefaint
Ar ôl llafur blwyddi maith.
Dyna'r frwydr sydd i'w hennill,
Gyda Dafydd gwnawn rhywddydd
Ac fe welwn eto Gymru
O'i chadwynau'n dod yn rhydd.

Daw, fe ddaw ffrwyth y llafur
Eto'n ôl i'r cylch a'r fro,
Ac fe welwn Fuddugoliaeth
Gyda Dafydd yn ei dro.
Dowch, ymunwch yn y frwydr
Gyda Wigley, codwn lef
Nes y gwelwn haul cyfiawnder
Gwawrio dros ei ysgwydd gref.
Twm Bethel.

RHIFYN NESAF

Daw y rhifyn nesaf allan
nos Iau, Mai 31
Y deunydd i law y golygyddion
perthnasol Mercher, Mai 23

LLANRUG

CYDYMDEIMLAD — Yn dawel yn ei gartref Ebrill 3, ar ôl gwaeldd hir bu farw John Owen Williams, 11 Bro-rhyddallt, priod Mrs Gwyneth Williams a thad Nellie a Rowland. Bu'r angladd yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun Ebrill 7. Cydymdeimlir â Mrs Williams a Nellie a Rowland yn eu profedigaeth a hefyd ag Allan, eu mab-yng-nghyfraith.

FFAIR HAF — Trwy garedigrwydd y perchnogion, cynhelir Ffair Haf Rigarug yng ngerddi Castell Bryn Bras ddydd Sadwrn, Mehefin 30. Mwy o fanylion eto.

LLONGYFARCHIADAU — i Carys, merch Megan a'r diweddar Bob Williams, Tanygaer ar gael ei phenodi yn Bennaeth Adran Hanes, yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn.

GWELLHAD BUAN — Anfonir cofion a dymuniadau am adferiad buan i Mrs Gaynor Owen, 2 Ffordd Glanffynnon sydd yn disgwyl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Sefton, Lerpwl.

EISTEDDFOD SIR ERYRI (Yr Urdd) — Daeth Parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed o'r Ysgol Gynradd yn ail, a Gwyn Meirion Roberts yn ail mewn cystadleuaeth offerynnau pres dan 15 oed. Disgybl yn yr ysgol gynradd yw Gwyn. Llongyfarchiadau iddynt.

CORONI AC ADLONIAINT — Nos Iau, Mai 10 am 7 o'r gloch yn Neuadd Ysgol Brynrefail, coronir Gwen Morris Owen, merch naw oed Mr a Mrs Derek Owen, 26 Bro Rhyddallt yn Frenhines Majorettes Llanrug, gan Faeres Caernarfon, y Cynghorydd Mary Richards. Christine Jordan fydd yn gweinyddu ar y frenhines, ynghyd â Julie Owen, Paula Evans ac Amanda McGuinness yn cynorthwyo. Barry Roberts fydd yn cario'r goron. Bydd breninesau eraill yn bresennol a Gwyn Meirion Roberts fydd yn seinio'r trwmpeid yn y seremoni.



Gwen Morris Owen, Brenhines Majorettes Llanrug.

Cymerir rhan yn yr adloniant gan 'Graham's Gang' (grŵp Dawnsio Pop) o Aelwyd Llanrug. Manon Llwyd Evans a Gwyn Meirion Roberts o'r Ysgol Gynradd, Parti Annette Roberts a pharti Siân Gibson, Ysgol Brynrefail, a pharti Danwsio Gwerin a Chân Actol, Ysgol Gwaun Gynfi. Derbyniodd Parti'r Gân Actol wahoddiad i ber-

fformio o flaen y Frenhines Elizabeth yn Llundain ar Mehefin 25, a gwelir y perfformiad cyntaf ohoni ar y noson hon. Yr arweinydd fydd y Dr. Eurwyn Evans, Llanrug.

DAMWAIN — Croeso adref i Mr a Mrs McNall, Susan a David, Pen Llei ar ôl bod yn yr ysbyty yn y Rhyl yn dilyn damwain. Dymunir adferiad buan iddynt.

CYNGERDD GOBEITHLU, (y Capel Mawr) — Daeth cynulliad da iawn ynghyd i'r cyngerdd gafwyd i ddiweddur tymor, a gwnaeth y plant eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Dysgwyrd hwy mewn canu, actio ac adrodd gan Mrs Jones, Ogwen a Mrs Horman, Venice. Diolchwyd gan Derek Jones ac Aled Jones, a'r Parch. W.O. Roberts. Wrth y drws yr oedd Mr J. Williams, Gwelldfa. Cyfeiliwyd gan Mrs Jones, Ogwen a llywyddwyd gan Mrs W.O. Roberts, Annedd Wen.

BEDYDDIO — Phawn Sul y Pasg yn y Capel Mawr, ar ol yr Ysgol Sul, bedyddiwyd Dawn Marie, merch fach Clive a Gladwen Meiriona Pritchard, Bryn Elan. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts.

BABAN NEWYDD — Llongyfarchion i Dafydd a Rhian Jones, 3 Minffordd ar enedigaeith merch fach, Sioned Mair.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR — Nos Iau, Ebrill 5 cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen; anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael ac yn methu bod yn bresennol, a diolchwyd am gyfraniadau a dderbyniwyd mewn nwyddau ac arian. Penderfynwyd mynd am drip i Gaer ar Mai 5, bydd croeso i unrhyw un ymuno â ni, dim ond rhoddi eu henwau i Mrs Beryl Thomas, Gerallt. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Ann Lloyd Griffith, Hawddamor a Mrs Sharon Owen, Sharel. Llywyddwyd gan Mrs. N. Roberts.

Y SEINDORF — Cynhaliwyd y Pwyllgor Cyffredinol Blyneddol nos Fawrth, Mawrth 27 ac etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Mr Eric Morris, Cadairydd: Mr James Jones, Is-gadeirydd: Mr Merfyn Ll. Jones, Ysgrifennydd: Mr Raymond Ll. Jones, Trysorydd: Mr Richard Jones, Gofalwr Offerynnau: Mr Merfyn Lloyd Jones, Ysgrifennydd i'r Wasg: Mrs Margaret Jones, Llyfrgellydd: Mr John Williams, Cyfarwyddwr Cerdd: Mr Frank Boylin, Arweinydd: Mr Owen Jones, Dirprwy Arweinydd: Mr John Tame.

Bu'r Seindorf yn cystadlu yn Pontin's Southport ar ddydd Gwener y Grogolith ac maent i'w llongyfarch ar ddod yn bumed allan o ddeunaw o fandiau, ac felly yn teilyngu chwarae yn y prawf terfynol ym Mhrestatyn ym mis Tachwedd.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, Ebrill 10 gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Daeth Mrs Gweneirys Jones (ar fyr rybudd) o'r Waunfawr i roi sgwrs ar Hwiangerddi a diolchwyd iddi gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen.

Bydd y wibdaith ym mis Mehefin yn mynd i Faes Artro, Llanbedr.

Llongyfarchwyd un o'r aelodau sef Mrs Rhian Jones, 3 Minffordd ar enedigaeith merch.

Bydd y gangen yn ymweld â changen Waunfawr ar Ebrill 26.

Miss Megan Humphreys a fydd yn cynrychioli'r gangen yn Aberystwyth ym mis Mai, i'r Cyngor Cenedlaethol. Diolchwyd i'r merched a fu'n gwneud y te gan Mrs Carys Lloyd Evans.

DYMUNIADAU DA — Mae Miss Mari

R. Hughes, Pant Afon yn dechrau ar gwrs S.R.N. fel nyrs. Dymunwn yn dda i Mari a fydd yn astudio am dair blynedd mewn ysbyty yn Llundain.

CYDYMDEIMLIR — â Mrs Williams, Bod Fair a Mrs Williams, Meirionfa, Talybont, ar farwolaeth sydyn eu chwaer-yng-nghyfraith ym Manceinion.

UNDEB Y MAMAU — Y Rheithor a weinyddai Offeren y Garawys i aelodau Undeb y Mamau yn ddiweddar. Er garwed y tywydd daeth nifer dda o'r aelodau i'r eglwys. Yr organydd oedd Mrs R.J. Owen, Glasdy. Wedi'r gwasanaeth cynhaliwyd cyfarfod busnes yn y Rheithordy gyda Mrs Williams, y Rheithordy yn llywyddu. Y gwest-wragedd oedd Mrs Stanley Jones, Stad Bryn Moelyn a Mrs Ellen Williams sy'n aros yn y Rheithordy. Diolchwyd iddynt gan y Rheithor.

GWAELEDD — Deillir bod Mrs S. Morris, Erw Hywel yn gwella yn foddhaol yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor. Yn Ysbyty'r Bwth yng Nghaernarfon y mae Mrs M.E. Shilton Tanycoed Cottage ac anfonwn ein cofion ati gan fawr hyderu y caiff feddygyniaeth lwyr a buan.

GWASANAETH DDYDD IAU CABLYD — Er gwaetha'r tywydd anffafriol ar nos Iau Cablyd daeth cynulliad dda i Eglwys Sant Mihangel i Wasanaeth y Cymun Bendigaidd. Yr oedd yn wasanaeth cydenwadol a da oedd gweld cynrychiolaeth o'r holl enwadau. Pregethwyd gan y Parch. W.O. Roberts, y Capel Mawr; darllenwyd yr Epistol gan Mr T. Thomas o Gapel y Bryngwyn a gweinyddwyd yr Offeren gan y Rheithor. Yr organydd oedd Mr J.T. Morris.

Y GROGLITH A'R PASG yn Eglwys Sant Mihangel — Y Rheithor oedd yn arwain Gwasanaeth y Grogolith fore Gwener y Grogolith ac ef hefyd a arweinai'r Myfyrdodau yn y prynhawn. Yr organydd oedd Miss N. Owen, Glan'rafon. Yn Offerennau Fore'r Pasg y Rheithor a weinyddai. Da oedd gweld cynulleidfaoedd mor deilwng o Wyl mor bwysig â'r Pasg. Yn lle gwasanaeth y Gosber ar nos Sul y Pasg fe gaed gwasanaeth o ddarllen-iadau ac emynau. Y darllenwyr oedd Peter Lloyd Jones, Colin Lloyd Jones, Brian Jones, Marian Jones, Gwawr Owen, Nia Jones, Keith Jones, Teresa Gardiner, Mrs J. Jones, Mrs. B. Jones, Mrs M.E. Jones, Mr Cledwyn Williams a ddarllenodd yr Epistol hefyd yng ngwasanaeth y bore a'r Rheithor. Michael Darwood oedd yn cyflwyno'r emynau a'r organydd oedd Mr. J.T. Morris. Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth y bore gan Alan Jones, Brian Jones, Michael Darwood, Marian Jones a Keith Jones. Fel arfer yr oedd yr eglwys wedi ei harddurno yn hardd iawn ar gyfer yr ŵyl.

CARREG GOFFA 1939-45 — Dymuna Mr W. Pritchard, Garnedd, Tan-y-coed ddiolch ar ran y pwyllgor i'r bobl a ganlyn am eu rhoddion caredig tuag at y Gofeb:

£5: Di-enw, Llanrug; Mrs M. Lloyd Williams, Llys Awen; Mr a Mrs Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol; Mr a Mrs Eric Morris, Tan-y-coed; Mr a Mrs Arthur Land, Cae Rhos Farm, Bangor; Mr Emyr Jones, Maes Gerddi, Tan-y-coed; Mrs K. Roberts, Erw Gain; Enid ac Ifan Griffith, Erw Gain; Miss A. Jones, 13 Mason St., Bangor (Lodge Bryn Bras gynt).

£3: Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy

£2: Ellen a Cledwyn Jones, Bro Rhyddallt Mr a Mrs Arthur Pritchard, Glanfa; Mr a Mrs H.O. Jones, Eryri; Mrs W. Williams, 10 Glanmoelyn; Mr Alun Williams, 10 Glanmoelyn; Mr a Mrs Bob Pritchard, Gwynfa; Mr a Mrs Richard Jones, 8 Rhos Rug.

£1: Mr a Mrs Bob Thomas, Gerallt; Mr

Fred Ll. Evans, 20 Maes Cadnant, Caernarfon; Mr a Mrs Wyn Griffith, Tan y Fron; Di-enw, Llanrug; Mr a Mrs W.E. Owen, Bryn Maen, Ceunant; Mr a Mrs R. Griffith, Orwig House; Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn, Tan-y-coed; Mr a Mrs Alf Parry, Bryn Heli; Mrs N. Jones, Madryn; Mr a Mrs O. Jones, 37 Bro Rhyddallt; Mrs E. Evans Caerfryn; Mrs M. Owen, Isbryn, Tan-y-coed; Mrs J. Roberts, 25 Market St., Caernarfon; Mr a Mrs Orwig Roberts, Elidir View, Llanrug; Mr Gwilym Eifion Williams, Bro Rhyddallt; Di-enw, Llanrug; Mr a Mrs R.Ll. Thomas, Alwyn; Mr a Mrs L. Schudlack, Trem Elidir; Mr a Mrs R.H. Williams, Moel y Wyddfa; Mrs C. Owen, Gwynant, Tan-y-coed; Mrs A. Evans, Dolwen; Di-enw Di-enw; Di-enw; Mr a Mrs J.G. Jones, Gorffwysfa; Mr a Mrs G. Williams, Bryn Eifion.

£5: Mr Elwyn Jones, Dunstable (o'r Fron Llanrug gynt)

£3: Mr a Mrs Gwilym Roberts, Ceris; Mrs Blodwen Griffith, Carreg Fawr, Groeslon, Pen y groes (gynt o Cae Newydd, Llanrug)

£2: Mr a Mrs Llew Griffith, 6 Bro Rhyddallt.

£1: Mr a Mrs O.W. Thomas, 1 Bryngwyn Terrace; Di-enw; Mrs C. Evans, Preswylfa, Tan-y-coed; Mr a Mrs A. Jones, 6 Bryngwyn Terrace; Di-enw.

YR YSGOL FEITHRIN — Cynhaliwyd dau fore coffi yn ddiweddar er budd yr Ysgol Feithrin, un gan Mrs Roberta Griffiths a'r llall gan Mrs Mair Hughes. Cafwyd £12 i goffrau'r ysgol. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r ddwy am eu hymdrech.

Mae'n angenrheidiol i enwau y plant sydd eisiau mynychu'r Ysgol Feithrin fis Medi nesaf fod yn nwylo Mrs Siân Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf neu Mrs Ann Jones, 23 Glanffynnon neu Mrs Shirley Davies, 8 Stad Minffordd erbyn Mai 29.

DIOLCH — Dymuna Mrs Alice Evans ddiolch i'r teulu a chyfeillion am eu cyfraniadau er cof am ei gŵr, y diweddar Walter Evans, Dolwen. Cyfrannwyd cyfanswm o £159 i Apêl Uned y Galon (Ambiwlans Caernarfon).

DIOLCH

£2: Mr a Mrs R. Wynne Roberts, 48 Rhyd Fadog, Deiniolen.

£1: Mrs Norman Pritchard, 8 Maes Gwylfa, Deiniolen.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Etholiad Cyngor Arfon Llanberis



FRANCIS JONES
— LLAFUR



TREVOR WYN WILLIAMS
— PLAID CYMRU



VERA GRIFFITHS
— PLAID CYMRU

Mae yn bleser ac yn anrhydedd gennyf gyflwyno fy hun fel ymgeisydd yn yr etholiad yma.

Hoffwn ddiolch ichwi am y cyfle a gefais dros y blynyddoedd i ennill y profiad sydd yn holl bwysig ac angenrheidiol i wasanaethu mewn llywodraeth leol.

Mae cymaint yn digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd ac mae'n rhaid cael llais cryf a phendant i warchod buddiannau'r gymdogaeth a'i thrigolion.

'Rwy'n sefyll yn yr etholiad yma eto yn hollol ar y wyneb fel Sosialydd ac mae'r ardal 'rwy'n gobeithio yn medru tystio fy mod wedi gwasanaethu yn egniol a gonest, bawb yn ddiwahân.

Gan fod pwysau gwaith arnaf fel Cyngorydd Sir ar y funud a gaf fi ymddiheuro os na fedraf alw yn bersonol â chwi.

Apeliaf felly am eich cefnogaeth gan eich sicrhau fy mod yn barod i wneud fy ngorau ac i fod yn deilwng o'ch ymddiriedaeth.

Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974 fe adeiladwyd 'bungalows' i'r henoed, a thrwy hyn, rhyddhawyd tai cyngor i'r ifainc. Mae gwaith moderneiddio helaeth wedi ei wneud ar nifer mawr o hen dai cyngor, ac mae meysydd chwarae wedi eu sefydlu bron ym mhob pentref. Dyna rai o weithgareddau Cyngor Arfon yn y gorffennol.

Er hynny, mae rhestr faith o waith heb ei wneud ond wedi ei raglennu ar gyfer y dyfodol. Mae problemau dyrys am godi fel daw gwaith Cynllun Dinorwig i ben. Fy nod, felly, os fy ail-etholir ar y 3ydd o Fai yw eich gwasanaethu hyd eithaf fy ngallu fel yn y gorffennol, i wella ein hamgylchfyd a sicrhau gwaith.

Braint ydyw sefyll yn enw Plaid Cymru am y tro cyntaf. Credaf, trwy 'siampl Dafydd Wigley, mai hon yw yr unig blaid â diddordeb yn y Cymry cyffredin a'u problemau dyddiol.

Braint ydyw sefyll fel ymgeisydd ar Gyngor Arfon yn enw Plaid Cymru, y Blaid sydd wedi gwneud cymaint er lles yr ardal hon. Braint hefyd ydyw cael sefyll wrth ochr un sydd wedi ymladd yn ddi-flino er mwyn ei etholwyr, sef Mr Trefor Williams. Mae tri ymgeisydd yn ymladd am ddwy sedd, — gan gofio hyn, gwyddoch ei bod yn haws i ddau o'r un blaid gydweithio gyda'i gilydd i gyflawni eu haddewidion, a'm haddewid i os fy etholir ydyw ymladd am iawnderau pobl fy ardal.

Pa iawnderau? Yr hawl i waith (mae Cynllun Dinorwig yn prysur ddirwyn i ben).

Yr hawl i well cyfleusterau yn ein tai.

Yr hawl i'r ifainc fwynhau Canolfannau Chwaraeon.

Yr hawl i'r henoed fwynhau ymddediad moethus a bodlon.

Yr hawl i weld eich Cyngorydd, ac iddo yntau weithredu ar eich rhan.

Edrychais, Gwelais,
GWEITHREDAF.

LLANBERIS



DEWCH AM DRO

Y rhai a gymerodd ran yn y rhaglen 'Dewch am Dro' gydag Alun Williams — Mr Ted Thomas (ysgrifennydd); Matron A.M. Jones S.R.N. (llywydd); Mrs M.E. Jones (Anti Mem — trysorydd); Mrs D.S. Owen (aelod) a Mrs Huw Roberts.

LLONGYFARCHIADAU — i Rhian Glyn Owen, 15 Stryd Siarlot. Bu Rhian yn llwyddiannus i ennill ar ganu yn Eisteddfod Sir yr Urdd, ym Mangor, yn ddiweddar, â ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg ym mis Mai.

Pob lwc iti Rhian!

MARW — Yn ddiweddar bu farw Mr William Jones, Padarn Road, a hefyd Mr Eric William Ponton, Rose Cottage, Pentre Castell.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r ddau deulu.

GWAELEDD — Mae Mrs Dilys Baylis, Meirionfa wedi bod yn cwyno ers rhai wythnosau. Ar hyn o bryd mae yn aros gyda Gwen ei merch ym Mhontllyfni.

Da oedd gweld Mrs Ethel Jones, Maes Padarn allan. Bu Mrs Jones yn anffodus i anafu ei chlun mewn damwain yn y tŷ rai wythnosau'n ôl.

ORDEINIO — Dydd Iau, Mawrth 29 yn Abersoch ordeiniwyd David John Pritchard yn weinidog ar gapeli Annibynwyr Bwlchtocyn, Abersoch, Horeb, Mynytho a Llanbedrog.

Mae John yn fab i Mr a Mrs Myrddin Pritchard, 1 Ffordd Padarn.

Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL — cangen Llanberis a'r cylch — Nos Fercher, Ebrill 11 y cyfarfu'r pwyllgor llywio am y tro cyntaf yng Ngallt-y-Glyn gyda Mr Marslem Jones yn y gadair. Ysgrifennydd yw Mr Charles Saymor, trysorydd, Mr Jack Thomas, ysgrifennydd gohebol, Mr Ted Thomas, Mr Ted Morris yw Ceidwad y Faner.

Cafwyd adroddiad gan yr ysgrifennydd yn datgan nad oedd wedi cael unrhyw wybodaeth o'r Pencadlys ar ôl y cyfarfod mawr a gynhaliwyd ym mis Mawrth.

Y cylch fydd Dôl-Afon, Cwm-y-glo, Brynrefail, Llanberis, Nant Peris hyd Pen-y-gwryd.

Bydd cyfarfod nesaf o Bwyllgor Llywio yng Ngwesty Gallt-y-Glyn, Mai 14 trwy garedigrwydd Mr Marslem Jones.

CLWB METHEDIG ERYRI — Cafwyd tri chyfarfod ym mis Mawrth. Cafwyd rhaglen dda hefo Mr Alun Williams yn 'Dewch am Dro' a chysidro fod y tywydd mor arw.

Mae llawer o'r aelodau wedi bod yn wael a mawr obeithiwn y cânt adferiad buan. Mae croeso mawr i unrhyw un sydd yn dioddef neu yn fethedig i ymuno. Yr ydym yn brysur paratoi ar gyfer y Noson Goffi, Mehefin 29. Rhewch eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

Dyddiau i'w cofio yw Mai 7, 14, 21 a 28 — cyfarfodydd am ddau o'r gloch yn y Ganolfan.

DIOLCH — Dymuna William a John Peris Roberts ddiolch dros eu brawd, Iorwerth Roberts, 29 Maes Padarn, Llanberis am y gofal cyson a dderbyniodd gan feddygon a gweinyddesau tra yn yr ysbyty, a charedigrwydd gan y teulu, cymdogion a llu o'i ffrindiau a fu yn ymweld ag ef.

Diolch yn fawr i bawb,

FFILM O'R RAS

Darlledir ffilm o ras yr Wyddfa 1978, a'r carnifal ar deledu Harlech am 10.30 ar Fai y 10fed.

DATHLU'R PASG — Bore Sul y Pasg, daeth cynulleidfa luosog ynghyd â rhieni a chyfeillion i Festri Nant Padarn i wrando ar y plant yn dathlu'r Pasg. 'Roedd yr adeilad wedi ei addurno yn hardd iawn a blodau'r gwanwyn.

Cymerwyd rhan gan ugain o blant sef: Judith, Paul, Adrian, Carys, Bethan, Sioned, Nia, Dylan, Geraint, Trystan, Eilian, Derfel, Neil, Euron, Sally, Bryn, Anna, Julie a Nicola.

Ymgwymerwyd â'r casgliad gan y plentyn ieuengaf, sef Alwyn, ynghyd â'i gyfnither, Christine.


LLONGYFARCHIADAU — i Susan merch Mr a Mrs R.H. Jones, 2 Maes Padarn ar ei dyweddiad â Gwynedd, mab Mr W. Morris, 2 New St., Cwm-y-glo.

PRIODAS — Yng Nghapel Memorial, Porthmadog yn ddiweddar, priodwyd John Malcolm Kennedy, Belmont, a Gillian Anne Jones, 4 Pensyflog, Porthmadog.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

EISTEDDFOD CAERNARFON A'R CYLCH



Mae pob colofn yn golygu nod y pentref.

DROS Y NOD
 Y SWM YN Y COFFRAU

DINORWIG

O'R YSBYTY — Croesewir gartref o Ysbyty Môn ac Arfon, Mr Alun Phillips, 6 Maes Eilian. Gwellhad pellach iddo, ac i eraill sy'n cwyno yn eu cartrefi.

YN YR YSBYTY — Ein cofion at Mr Arfon Roberts, Ysgubor sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor (adran y plant) yn celsio adferiad iechyd. Dymunir yn dda iddo ef a'r rhai sy'n cwyno yn eu cartrefi.

MARW — Ebrill 3, yn Ysbyty Môn ac Arfon, wedi gwaeldd maith, bu farw Mr Hugh Lewis Jones, 7 Bro Elidir. Roedd yn briod i'r diweddar Mrs M.J. Jones. Cydymdeimlir â'i ferch, Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, ac â Mr a Mrs Alun Roberts, Bangor (merch a mab-yng-nghyfraith) a'r ŵyr a'r wyresau, ac a'i chwaer, Miss A.M. Jones, Porthaethwy, a'r cysylltiadau teuluol eraill.

CYDYMDEIMLIR — â Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian ym marw tad Mrs Williams, ym Mangor yn ddiweddar.

POST YN CAU — Ymddeola Mr a Mrs Henry Parminster, Brookfield, Dinorwig ddiwedd y mis fel postfeistri Swyddfa Bost Dinorwig wedi gwasanaethu am 43 mlynedd. Bu tad a mam Mrs Alice Parminster yn gwasanaethu o'u blaen, a rhyngddynt fel teulu mae cysylltiad o tua 80 mlynedd yn y Post.

Bydd Mr a Mrs Henry Parminster yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar Mai 16 eleni. Fe'u priodwyd yng Nghapel Dinorwig M.C. Dymunir pob hapusrwydd a bendith iddynt ar eu hymddeoliad.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs Maggie Evans, Dublin House, Dinorwig ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati ym marw ei brawd, Mr William, R. Jones, 4 Ffordd Padarn, Llanberis.

DIOLCH — Dymuna William a John Peris Roberts ddiolch dros eu brawd, Iorwerth Roberts, 29 Maes Padarn, Llanberis am y gofal cyson a dderbyniodd gan meddygon a'r gweinyddesau tra yn yr ysbyty, a charedigrwydd gan y teulu, cymdogion a lluo o'i ffrindiau a fu yn ymweld ag ef.

Diolch yn fawr i bawb,

GAIR O DDIOLCH

Ward 7X,
Yr Ysbyty Frenhinol,
Lerpwl.
Hoffwn ddiolch i bawb ym Mrynrefail, Cwm-y-glo, Penisarwaun a Chlwt-y-bont am eu cardiau, anrhegion a'u dymuniadau da, ac yn arbennig i bawb yn y Becws, Cwm-y-glo am eu cymorth yn

BEDYDD — Ar y Sul cyntaf o Ebrill gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd yn Eglwys Peris Sant pryd y bedyddiwyd plantyn Mr a Mrs William Owen, Longlai, Bethel. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Parch. Ganon Alun Jones. Dymunwn bob bendith i Harri Wyn a'r teulu.

GWAELEDD — Drwg gennym ddeall i Mr Stanley Edwards, 3 Bro Glyder gael ei gymryd yn wael tra ar ei wyliau yn Nyfnaint. Da gennym ddeall ei fod erbyn hyn wedi dod o'r ysbyty ac y cawn ei weld adre'n ôl eto yn fuan wedi cael adferiad llwyr.

CYDYMDEIMLAD — Brawychwyd ardal y Nant ym marwolaeth Mr Elfed Thomas, 9 Glanrafon. Yn enedigol o'r Nant, treuliodd rai blynyddoedd yn athro yn Ysgol Uwch Safonol Caernarfon. Gwasanaethodd y Nant am gyfnod fel Cynghorydd ar Gyngor Gwyrfa. Cymeriad diddan a diddorol, a theimlir chwithdod ar ei ôl. Derbynied ei weddw, Mrs H. Thomas, ei ddau fab Robert a Meirion, ei ferch Theresa a'i wyres fach Llinos a'r cysylltiadau i gyd ein cydymdeimlad dyfnaf â hwy yn eu profedigaeth chwerw.

LLONGYFARCHION — i Mr Geraint Elis B.Sc, Sycharth, Bethel, mab Mr a Mrs J. W. Elis, ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol dros Wynedd. Da gweld bachgen o'r ardal yn ennill swydd o gyfrifoldeb yn ei fro ei hun. Dymunwn iddo bob rhwyddineb yn ei swydd newydd a phob llwyddiant eto i'r dyfodol.


LLONGYFARCHIADAU i Glenys Jones, 2 Nant Ffynnon ar gyrraedd ei deunaw oed ar Ebrill 30. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

(Gan nad yw'n hawdd iddo ei grybwyll ei hunan yng ngholofn newyddion y Nant, dymuna'r ardalwyr a staff yr Eco fynegi eu diolch i Mr Thomas John Roberts, Llys Awel, y gohebydd lleol am ei lafur, a dweud mor falch ydym o'i weld wedi gwella ar ôl ei waeldd diweddar — Gol.)

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Etholiad Cyngor Arfon Deiniolen a Dinorwig



JACOB JAMES

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyso a wneuthum i gael bunglos henoed i Ddeiniolen a Dinorwig ac a ohiriwyd yn amhenodol; a'r pwyso a wneuthum ar yr Adran Carthffosiaeth y Bwrdd Dŵr i gael gwell carthffosiaeth i Ddeiniolen, er mwyn adeiladu mwy o dai yma fel y bydd yn bosibl cadw y bobl ifainc rhag mynd oddi yma i ardaloedd eraill. Fy mwriad ydyw cadw y ddau bentref yma yn fyw ac i geisio cael yn ôl i'r ardal rai o bobl sydd wedi gorfod mynd oddi yma oherwydd prinder tai ac i dynnu sylw yr awdurdodau at anghenion cefn gwlad. Os caf fy ailethol gwnaf fy ngorau i gael sylw i'r pethau yma, ac unrhyw gŵyn arall a ddaw i fy sylw, fel y gwneuthum yn ystod y tair blynedd diwethaf.



ALUN WYN EVANS
- LLAFUR

Teimlaf hi'n ffrainc ac yn anrhydedd i gael sefyll yn yr etholiad yma gyda'r bwriad o gynrychioli bro fy mebyd ar Gyngor Arfon.

Ymddiddorais mewn gweithgareddau lleol ac mewn Llywodraeth Leol. Eisteddais ar sawl pwyllgor gan gynnwys Pwyllgor y Neuadd a phwyllgorau er lles Oedolion a Ieuencid. Bûm hefyd yn flaenllaw gyda gwaith undeb.

Credaf nad yw tenantiaid Deiniolen a Dinorwig wedi cael yr un breintiau â thenantiaid eraill Arfon gyda'r cynllun atgyweirio tai.

'Rwy'n hollol anfodlon ynglŷn â'r arafwch o adeiladu 'bungalows' yn Neiniolen. Mae angen y rhain ers blyneddodd yma. Pe'm dewisir, rhoddwn hyd eithaf fy ngallu i'ch gwasanaethu.

DEINIOLEN

COFIO'R PARCHEDIG GEORGE BREWER - Nos Fercher, Ebrill 11 yn y Tabernacl (E.F.) cynhaliwyd cyfarfod i ddadorchuddio cofeb i'r diweddar Barch. George W. Brewer, M.A., B.D., gweinidog yr eglwys 1973-1978.

Dechreuwyd gyda gweddi gan y Parch. Erfyl W. Blainey, Llanfairfechan Darllenwyd gan y Parch. Albert W. Jones, gweinidog presennol yr eglwys. Ef hefyd a ddadorchuddiodd y gofeb. Gweddiwyd gan Arolygwr y Gylch-daith, y Parch. Alun W. Francis, Caernarfon. Pregethwyd gan y Parch.

Dennis Griffith, Caergybi. A'r Fendith gan y Parch. Tudor Davies, Bangor. Yr organyddes oedd Mrs Albert Wyn Jones, Tregarth. Yn bresennol hefyd oedd y Parchedigion Harri Parri, Caernarfon, Marcus Robinson, Llanberis, Trefor Lewis, Deiniolen, a'r Parch. Trefor Jones, Engedi, Caernarfon.

Cafwyd ymddiheuriad gan fam y Parch. George Brewer; oherwydd gwaedd methodd â bod yn bresennol.

Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd oddi wrth y Parch. Owen E. Evans, M.A., Llanfairpwll.



O'r Almaen I Ddeiniolen



Y SEINDORF - Mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn Theatr Gwynedd nos Fercher, Ebrill 18 rhoddwyd croeso gan y seindorf ac eraill i ddeugain o Almaenwyr ar eu hymwelid â Bangor a'r cylch. Yr Almaenwyr oedd prif adlonwyr y noson, a chafwyd canu a dawnsio Almaenig traddodiadol ganddynt.

Y nos lau dilynol cafwyd noson o adloniant ysgafn yng Nghanolfan Tanybont lle y ffarweliwyd â'r Almaenwyr cyn eu dychweliad gartref fore Gwener.

Ymweliad gyfnewid oedd hon i dalu'n ôl am y croeso a gafwyd gan y Seindorf ar eu hymwelid a Soest Chwaer-ddinas Bangor, yn yr Almaen, fis Hydref diwethaf.

DIOLCH - Dymuna Mrs Betty Roberts, 48 Rhyd Fadog gydnabod gyda diolch cywiraf ei ffrindiau a'r teulu am yr anrhegion gwerthfawr, arian, a'r cardiau (sydd yn rhy niferus i'w hateb) a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'r clinic yn Neiniolen ar ôl dwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth.

ANRHYDEDDU MRS. A. REES OWEN - Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng nghapel Peniel, Bangor ar Ebrill 18 cyflwynwyd Tystysgrif Anrhydedd Mr a Mrs Thomas Gee i Mrs Annie Rees Owen, 5 Ffordd Deiniol.



Bob blwyddyn anrhyddeddir dynion a merched sydd wedi bod yn ffyddlon i'r Ysgol Sul ar hyd y blyneddodd ac sy'n parhau i gefnogi'r Ysgol Sul yn ymarferol.

Fel gwraig i'r diweddar Barch. Henry Rees Owen, bu Mrs Owen yn weithgar yng nghylchoedd Tŷ Mawr ym Môn, Llanefydd yng Nghlwyd a Llanbedrog yn Llŷn.

Wedi ymddeol symudodd Mr a Mrs Owen i Ddeiniolen ac ymaelodi yn Nisgwylfa. Pery Mrs Owen yn weithgar yn yr eglwys a bydd holl aelodau Disgwylfa, yn enwedig aelodau'r Ysgol Sul yn datgan eu llawenydd am yr

anrhydedd a ddaeth i'w rhan. Hefyd mynegir diolchgarwch yr eglwys am rannu ohoni ei doniau ag eraill, a dymunir gwellhad buan iddi hi.

TE BACH - Nos lau, Ebrill 5 cynhaliwyd cyfarfod o chwiorydd yr eglwys. Agorwyd gydag emyn, darlenniad a gweddi gan Mrs Marian Williams, 12 Ffordd Deiniol.

Cydymdeimlwyd â holl aelodau'r eglwys oedd mewn gwaelled. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Pritchard a Mrs Elsie Davies.

Mrs M. Hughes fydd yn dechrau'r cyfarfod nesa' a Mrs Evans a Mrs Hughes' Eirlys' fydd yn rhoi'r te. Penderfynwyd i gynnal arwerthiant.

APÊL GWAUN GYNFI - Nos Fercher Ebrill 4 traddodwyd ei ddarlith ddiddorol ar y testun 'Chwalu' gan y Parch. J. Alun Roberts, Llanddulas. Siomedig oedd y gefnogaeth i'r ddarlith ond ni fu i hynny darfu ar fwyniant ac edmygedd y gwrandawyr ar gyflwyniad caboledig y darlithydd wrth olrhain dyddiau cynnar ei deulu.

Bwriedir cynnal Noson Goffi a Helfa Drysor yn ystod Mai, a chyhoeddir y manylion pellach wedi'r pwyllgor nesaf ar Ebrill 30. Mae'r casgliad bellach yn £1800, ac mae'r pwyllgor yn dygn bwysio ymlaen efo'r dasg o geisio cyrraedd y nod. Yn ystod mis Mai byddwn yn galw yn y cartrefi hynny yn y pentref na churwyd ar eu drysau hyd yma i wahodd cyfraniadau at yr Apêl.

MARWOLAETH - Ar Ebrill 19 bu farw Mr Albert Roberts, 2 Tai Gwyrfa Clwb-y-bont, (un o ddarlennwyr ffyddlon yr Eco). Cydymdeimlwn yn fawr â'i ferch Nora, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

E. & E.M.
GREEN

SIOP
GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

Deiniolen

PRIODAS RUDDDEM



Darlun yw hwn o Mr a Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, ar achlysur dathlu eu priodas ruddem Ebrill 10. Priodwyd hwy yn y flwyddyn 1939 yn Eglwys Engedi Caernarfon gan y diweddar Barch. Enoch Ellis Jones, Disgwyfya. Mae iddynt 2 o feibion, Gwilym a Norman a 5 o wyrion. Dymunwn pob hapusrwydd a iechyd i'r ddau ar iddynt gael cyrraedd eu priodas aur. Mae'r ddau yn diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur, sydd yn rhy niferus i ateb yn unigol, diolch yn fawr.

I Emyr hoff a'i Ddilyr,
Daw atgo llon a melys,
Wrth fwrw golwg dros y daith
Mewn Rhwymyn serch mor hoenus.
Mewn hawddfyd, ac mewn adfyd
Bu'r ddau yn treulio bywyd.
Mewn buchedd moes, a llon eu cân
Dedwyddach dau ni welwyd.

I achos Duw a'i eglwys,
Eu talent sydd yn arllwys
Yn swm yr emyn hoff a'i gân
Cadwasant ei ewyllys.
'Rym ninnau, eu cyfeillion,
O waelod isaf calon,
Yn llwyr edmygu'r ddeuddyn hyn,
Sydd mor gytûn a ffyddlon.

John Evans, Yr Iard.

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN — (Undeb y Mamau) — Cafwyd cyfarfod ar yr ail o Ebrill gyda'r Parch. Emrys Edwards Caernarfon yn gwasanaethu ac yn adrodd dipyn o'i hanes fel caplan yng ngwersyll Butlin.

Dymunwyd yn dda i Beryl Griffith, 5 Bryntirion ar ei phriodas gyda Mr T.M. Jones, Pen Mynydd. Dymunwyd gwellhad buan i Mr K. Mowll, 19 Bryntirion yn ei waeledd ac hefyd i Mrs Evans, Tremellian, Brynrefail. Rhoddwyd y te gan Mrs M.T. Roberts Tai Croesion a Mrs O.C. Roberts, Elidir View. Cyflwynwyd y diolchiadau gan A. Pritchard, Pen Sarn.

FESTRI'R PASG — Cafwyd y festri nos Wener, Ebrill 6 dan gadeiryddiaeth y Parchedig Ganon Alun Jones, Llanberis. Ailetholwyd y wardeiniaid ac ysgrifennydd y Cyngor Eglwysig.

Cafwyd y Cymun Bendigaid trwy y Grawys gyda'r Parch. G. Williams, Llanrug yn gweinyddu. Dydd Gwener y Groglith cafwyd Awr Dawel gyda'r Parchedig Emrys Edwards, Caernarfon.

Daeth cynulleidfadau dda i Wasanaeth y Pasg ac yr oedd yr Eglwys yn edrych yn hardd iawn wedi ei harddurno â blodau. Carai'r Wardeiniaid ddiolch i bawb fu yn gweinyddu ac i'r rhai a anfonodd flodau ac i'r rhai a fu'n glanhau ac yn addurno'r Eglwys ar gyfer yr Ŵyl.

COGYDDDES NEWYDD — Llongyfarchiadau i chi, Ann Owen, 1 Llys y Gwynt ar eich penodi yn gogyddes yng Ngholeg Glynillifon.

CYDYMDEIMLWN — â theulu y ddiweddar Mrs Owen, Tan-y-Coed yn

eu profedigaeth o golli Mrs Owen.

DYMUNO'N DDA — Ein dymuniadau gorau i Mrs K. Jones sydd yn dal yn yr ysbyty.

DIOLCH — Dymuna Bryn a Pat Hughes, Cae Hywel Isaf ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

YMDDEOLIAD — Wedi oes o weithio'n galed mae Mr William John Jones, 13 Bryntirion wedi ymddeol. Ein dymuniadau gorau iddo am ymddeoliad hir a hapus.

YN GWELLA — Balch ydym o glywed bod Mr David J. Davies, 4 Bryntirion yn gwella yn Ysbyty Bryn Seiont. Brysiwch i wella'n llwyr Mr Davies.

CLWB YR HEULWEN — Treuliwyd pnawn difyr yng Nghlwb yr Heulwen ddydd Mawrth yng nghwmni'r Parch. W.O. Roberts, Llanrug. Rhoddodd hanes ei yrfa o odre'r Moelwyn i odre'r Wyddfa. Rhoddwyd y te gan dair o ferched Llys-y-Gwynt ac enillwyd y wobwr gan Mrs Orwig Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 15fed.

DIOLCH — Dymuna Mrs M.J. Roberts Tai Croesion ddatgan ei diolch i Mrs Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel, Mrs. M. Davies, Llys Gwynt, Mrs. N. Jones, Meillionydd, Mr D. Peterson, Tŷ'r Ysgol a Mr J. Ellis, 10 Rhos Rhug, Llanrug am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod misoedd y gaeaf.

LLONGYFARCHIADAU — i Anwen Jones, Meillionydd ar ei pherfformiad yn y ddrama 'y Meistr' yn Theatr

Gwynedd yn ddiweddar. Myfyrwraig ar ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Bangor yw Anwen.

CYDYMDEIMLIR — â Mr a Mrs Nathan Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd. Collodd Nathan ei ewythr yn Llanrug ar Ebrill 3.

CYRRAEDD Y NOD — Mae Pwyllgor Lleol yr Eisteddfod yn falch o gael cyhoeddi bod Penisarwaun wedi cyrraedd y nod o £1,125 ar gyfer y pentref. Mae tua £1,145 wedi dod i mewn hyd yn hyn. Mae'r Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth ffyddlon a'u haelioni yn ystod yr ymgyrch hir. Roedd y Nodyn Cawl a Chân yn llwyddiant mawr. Diolch yn fawr i Edward am ddod yr holl ffordd o Sir Fôn (yn ddi-dâl); i Mr Jones y prifathro a'i staff, ac wrth gwrŷ y plant. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i staff y gegin am eu cydweithrediad ar bob achlysur, ac i Mrs Williams, gofawraig yr ysgol.

Bydd llun y pwyllgor yn y rhifyn nesaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd ar 27 Mawrth, gyda Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt yn llywyddu. Mynegwyd llawenydd o weld Mrs. J. Price Jones a Mrs Eluned Porter wedi gwella ac yn eu holau. Hefyd, yr oedd pawb yn dymuno gwellhad i Mrs Rees Thomas. Cydymdeimlwyd gyda Mrs Humphrey Williams y cyn-lywydd yn ei phrofedigaeth. Llongyfarchwyd Mrs Annie Williams, Meillionydd ar ddathliad ei phen-blwydd yn bedwar ugain. Mr William Arthur Rowlands oedd yn annerch gan sôn am ei hanes ym Mwrma yn ystod yr ail ryfel byd. Mrs J. Price Jones enillodd y raffl, a Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams a roddodd y te.

Cofio Deiniolen



Y llun trwy garedigrwydd Mr. Jones, Llwyn Onn, Llanrug.

Annwyl Olygydd,

Daeth i fy meddwl ryw noson sawl siop sydd yn Neiniolen 'nawr. Rhyw bedair neu bump? 'Rwyf yn cofio gymaint â deugain o Cynfi House i lawr.

Carwn wybod a oes rhywun yn cofio mwy.

Am Clwt-y-bont, 'rwyf yn gwybod mai dim ond un sydd yno, 'rwyf yn cofio pedair ar ddeg yno, ac un tŷ tafarn.

Yn gywir,
R. Hughes,
Llanberis.

(gynt o Clwt-y-bont)



Yr Ŵyl Lafur

Cartref,
Stryd yr Orsaf,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,

'Rwyf yn sgwennu ar ran Pwyllgor Gŵyl Lafur Caernarfon i esbonio i'n cyd-Undebwyr Llafur y rheswm pam na chynhelir Gŵyl Lafur yng Nghaernarfon eleni i ddathlu Dydd Rhyngwladol y Dosbarth Gweithiol.

Gan fod Gŵyl Lafur lwyddiannus wedi ei chynnal yng Nghaernarfon llynedd gobeithiwyd y buasai Cyngor Undebwyr Llafur Caernarfon, fel y corff sy'n cynrychioli undebwyr llafur yn lleol,

17 Lôn y Bryn,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Dyma lun gafodd ei dynnu yn Llundain amser 'roedd Billy Graham yno. O'r chwith i'r dde yn y darlun mae'r diweddar Mr Hugh Jones, Llys Llywelyn, Bethel, y diweddar Barch. Glyn Williams, gweinidog y Cysegr ar y pryd, a'r diweddar Mr John Ifor Jones, Hendre, Bethel, Rheolwr ar Gwmni Bob Parry Caernarfon a brawd y diweddar Mr Hugh Jones, Llys Llywelyn. Y Parch. Terry Thomas, gweinidog Eglwys Disgwyfya Deiniolen ar y pryd. Nid wyf yn gwybod beth oedd enw y gŵr arall ond 'roedd yn un o gwmni Bob Parry Caernarfon.

Mrs Dorothy May Jones.

wedi mynd ati i drefnu'r ŵyl eleni. Yn groes i'r disgwyl gwrthododd y Cyngor Undebwyr Llafur drefnu'r ŵyl ac nid oedd digon o amser wedyn i wneud trefniadau eraill ar gyfer y Dydd Rhyngwladol yng Nghaernarfon.

Fe wneir ymdrech eto y flwyddyn nesaf i berswadio Cyngor Undebwyr Llafur Caernarfon i gynnal Gŵyl deilwng o draddodiad gorau'r dosbarth gweithiol yng Ngwynedd.

Eleni mae Pwyllgor Gŵyl Lafur Caernarfon yn trefnu i undebwyr llafur o'r cylch ymuno yn y dathliadau yn y Theatr Sherman yng Nghaerdydd. Mae gweithgareddau'r dydd yno yn cynnwys darlith gan yr Athro Gwyn A. Williams, trafodaeth dan arweiniad Des O'Hagan o Sinn Fein — Plaid y Gweithwyr, ffilm i ddathlu ugeinfed pen-blwydd y chwyldro yng Nghuba, siaradwyr gwadd o Chile a Fietnam ac adloniant gan Gôr Meibion Ystradgynlais a grwpiau gwerin o Dde'r Amerig a Chymru.

Yn ogystal â hyn bydd arddangosfa yn dangos ymdrechion rhyngwladol y dosbarth gweithiol a phobloedd dan ormes i ennill rhyddid a sosialaeth gan bwysleisio'r rhan mae Imperialaeth Brydeinig yn chwarae yn hyn i gyd.

Yn frawdgarol,
Selwyn Williams,
(Cadeirydd Pwyllgor
Gŵyl Lafur Caernarfon)

ANTUR YR ANDES

(O lythyr awyr Mawrth 13, 1979 o Santiago de Chile)
Alun Lloyd Hughes at ei Fodryb.

Port Varras,
De Chili.

Dywed Alun iddo dderbyn llythyr, anfonwyd gan ei fodryb, yn Esquel, Cwm Hyfryd, Patagonia ymhen pythefnos o'i yrru. Datgan ei falchder o'i dderbyn gan na dderbyniasai gan neb un heblaw ei fam.

Gorffennwyd y ffilmio yn yr Andes ac yr oedd pawb wedi gwasgaru. Aeth ef a'i bartner yn ôl i Chili fel y bwriadai wneud.

Dywed i'r ffilmio fynd ymlaen yn iawn a hydera y bydd 'na raglenni go lew ar y boc erbyn mis Medi. Tystia fod criw y BBC yn hogia iawn ac iddynt gael digon o hwyl hefo nhw. Gwnaed nifer o raglenni ond gresynna fod cymaint pwyslais ar y Wladfa. Yn ei farn ef 'doedd dim digon ar 'Antur yn yr Andes' fel rhaglenni i'r plant.

Mae nifer fawr o bobl yn Nhrefelin yn siarad Cymraeg. Gellid adnabod y Cymry gan fod pawb golau, o'r bron, yn siarad Cymraeg neu yn perthyn i'r Cymry.

Cafodd ef a'i bartner ddiwrnod diddorol efo boi o'r enw Norman Williams, - 'gauchio' Cymraeg. 'Roedd ef a'i deulu yn brysur yn 'brandio' gwartheg mewn 'corral'.

Dau geffyl, dwy lasw a llawer o weiddi, rhegi a strachu. Hydera iddo gael lluniau da - gobeithio. Bu mewn ras hefyd. Ceffylau yn rasio ceffylau a cheffylau yn rasio ceir. Y car enillodd! Felly aeth pawb draw i gael golwg ar yr injian.

Cyfarfu nifer o Gymry yn y tafarnau yn Nhrefelin. Mae ymaflyd bôn braich yn bur boblogaidd yno rwan, ar ôl i Dafydd fod yn herio pawb!

Mae'r BBC yn gwneud mwy o raglenni i lawr y dyffryn - mae Owen Edwards wedi dod allan yno. Aeth Emlyn Davies o Lanberis yn ôl i Brydain (boi da iawn i weithio efo fo!) - ond mae Selwyn Roderick yn dal i fod yno.

'Doedd gan yr hogia ddim llawer o syniad be' i wneud efo'r mis sydd ganddynt yma ar ôl. 'Does dim digon o fynyddoedd da yma i'n cadw efo'n gilydd. Felly â pawb i'w ffordd ei hun.

'Rydym ni yn gwersylla ar lan Llyn Llanquihui sy'n ymyl Puerto Montt, yn Chili. Hwn yw'r porthladd mwyaf (1000 km i'r gogledd o Punta Arenas). Yr unig ffordd i deithio hyd yma yw efo llong drwy'r ffiords, dyffrynnoedd dwfn wedi eu suddo dan y môr gan adael copaon fel sribedi o ynysoedd. Mae golygfeydd gwych yno. Daethant yno i ddringo y llosg-fynydd yr 'Osorno'. Mi wnaethom ni hynny i fwrw'r Sul dwytha. (73km o gerdded a 9000 tr. o ddringo). Mae yno amryw o losg-fynyddoedd yn yr ardal (gyrrodd lun adref). Mae'n ddiwedd haf yno ym mis Mawrth a llwythi o fwyar duon o gwmpas, heb fawr iawn o bobol i'w hel. Digonedd

o afalau, eirin gwlanog (peaches) ac eirin eraill heb fod mor wlanog, o bob math. Felly mae ffrwythau yn rhad ac am ddim yn aml iawn. Mae'r ardaloedd yma yn brydferth, y bobol yn glên a'r byw yn dipyn rhatach. Gwell ganddo Chili na'r Ariannin. Ardal debyg i ardal 'y Blue Grass yn Kentucky' - llynnoedd, mynyddoedd a choedwigoedd, caeau yd a pherllannau, ond prin iawn yw'r bobol yn y pentrefi bach.

Mae llawer o Almaenwyr yno ac yn cael dylanwad cryf ar yr ardaloedd chwaethach na'r Cymry yn Nhiriogaeth Chubut, yn Patagonia. Mae pawb yn gallu siarad Almaeneg. Mae digon o ffermwyr cefnog yma ond pobol digon tlawd yn y pentrefi.

Gan fod yn bryd iddo ddarford ei lythyr, credai yr aent draw i weld mwy o 'gringos' (pobl wynion) sy'n aros yn y pentref - flys prynu sach cysgu gan un.

'Rydym am fynd i lan y môr yfory, wedyn i fyny i Santiago am ddiwrnod neu ddau. Awn wedyn yn ôl dros yr Andes heibio Aconcagua, 22,000 tr. mynydd uchaf De Amerig, i gyrraedd Buenos Aires mewn pryd i weld gweddiill yr hogia' cyn iddynt 'hedeg adref ar Ebrill 6ed.

Hyderaf y byddwn yn Euenos Aires, Ariannin yr wythnos gyntaf yn Ebrill, yn LaPaz, Bolivia ar lan Llyn Titicaca, ym mis Mai ac yn Lima ar arfordir Periw, ddiwedd Mai os ydych am sgwennu.

Derfydd y llythyr trwy anfon cofion at bawb, yn gân a chyfaill, gan obeithio bod y gwanwyn wedi cyrraedd inni yma.


R. Williams,
Llanrug.

X YR ETHOLIAD

YR ETHOLIAD GYFFREDINOL: Dyma ganlyniadau yr etholiad gyffredinol yn 1974: PLAID CYMRU - 14,424; LLAFUR - 11, 730; CEIDWADWYR - 4,325;



DAFYDD WIGLEY
- PLAID CYMRU



MERFYN HUGHES
- LLAFUR

A gaf fi ddiolch i etholwyr Arfon am y gefnogaeth yn yr etholiad ddiwethaf. Mawr obeithiaf y teilyngais eich hyder. Bellach 'rwyf yn gwbl argyhoedd-edig bod angen newid y gyfundrefn os yw Cymru am gael chwarae teg. Nid oes gan Lundain yr amser na'r diddordeb i lunio atebion i'n problemau yma yng Nghymru, - y problemau ymarferol megis diffyg gwaith, gwella tai a ffyrdd, a chael dyfodol i'n pobl ifanc. Yn yr ardal hon, yn arbennig, gwelir yr angen am Gynllun Economaidd er mwyn sicrhau gwaith ar ôl gorffen pwerdy Dinorwig.

Mae Aelodau Seneddol Plaid Cymru yn rhydd bob amser i roddi blaenoriaeth lwyr i anghenion Cymru a buddiannau eu hetholaeth. Cafodd Cymru fwy o sylw yn y Senedd ddiwethaf nag erioed o'r blaen. Llais Plaid Cymru oedd yn rhannol gyfrifol am hyn ac am ennill mesurau o bwys i'r etholaeth.

Hyderaf y caf eich cefnogaeth eto i barhau â'r gwaith.

Pan yn hogyn, treuliais lawer o wyliau gyda fy modryb a'm ewythr (Mr. a Mrs. Ifor Jones) yn Gilfach Ddu. Gadawodd y dyddiau haf hynny argraff ddwfn arnaf o'r chwarelwyr; yn siriol bob amser, tynnu fy nghoes rhan amlaf, a byth yn cwyno. Yn wir, 'roedd cryfder ei gymeriad hyd yn oed yn fwy na'i allu i naddu'r graig.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach, cefais y ffrainc o chwarae rhan i ddod â'r ymgyrch hir i ben, ond yn awr yn dod â baint a chyfiawnder i'r chwarelwyr. Hwy eu hunain ddylai gael y clod i gyd - maent wedi ei ennill gyda'u dychwch a'u dyfalbarhad, a chan gyfiawnder eu hachos.

Rhaid i'r Mudiad Llafur yn awr barhau yn ei waith, gan fod yna lawer o anghyfiawnderau eto sydd angen eu symud. 'Rwyf eisiau bod yn rhan o'r ymgyrch yma o'r dechrau, ac mewn un ffordd, dalu yn ôl y ddyled i'r amser pan gyfoethogwyd fy mhleentyndod gan y 'Werin o'r dyffryn'.

STORFA
Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Perchnogion newydd,
ond gwasanaeth a chroeso
cystal ag erioed !

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

RHYDFRYDWYR — 3,690. Mwyafrif PLAID CYMRU — 2,894. Beth fydd y sgôr yn 1979? Cofiwch ddefnyddio eich pleidlais.



JIM PAICE — CEIDWADWR


Cred Jim Paice fod trigolion y fro yn barod am newid — a'u bod yn ymwybodol o'r ffaith fod Sosialaeth wedi eu gadael i lawr. Cred mai'r hyn sy'n penderfynu pleidlais y bobl yw'r union faterion sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd megis gwaith, cartrefi, teuluoedd, cyfraith a threfnu a ffermio.

Cred Jim Paice y bydd yn rhaid perswadio busnesau llai i ddod i'r ardal i gymryd lle gwaith Trydan Dinorwig. Gellir hybu'r rhain trwy gwtogi ar drethi a gwneud caniatâd cynllunio'n haws.

Mae darparu tai newydd ac adnewyddu hen rai yn rhan bwysig o'i bolisiau ac hefyd annog pobl i brynu eu tai eu hunain.

Fel ffermwr cig eidion cred y gall ein ffermwyr ni gystadlu'n ffafriol â rhai eraill yn y Farchnad Gyffredin.

Ni all deddfwriaethau newid y sefyllfa gyfraith a threfn gyfoes — ond gall Llywodraeth onest ynghyd â llai o ymyrraeth Llywodraeth i fusnes yr unigolyn gynorthwyo i adfer hunan-barch a chyfrifoldeb mewn pobl.



J. TREFOR EDWARDS
RHYDDFRYDWR

Hoffwn weld mwy o ymdrech i ddenu diwydiant ysgafn i'r sir, gwell ffyrdd, trefniad amaethyddol i gymell ac i gadw'r dyn ifanc a'i bryd a'i ddiddordeb ym myd y ffermio. Gwell telerau i amaethwyr.

Cynlluniau ar gyfer y dynion di-waith pan gwblheir yr Orsaf Bwer.

Diddymu'r dreth incwm a'i gosod ar nwyddau er cymell dyn i weithio ac i ddewis drosto'i hun sut y gwaria ei bres.

Nid oes i Gaernarfon Ganolfan Hamdden. Yn y byd ohoni heddiw y mae'n bwysig os nad yn angenrheidiol cael adeilad o'r fath. Y mae amryw yn Lloegr — paham bod rhaid i ni fod ar ei hôl hi yng Nghymru?

Y mae'n hen bryd newid y drefn bresennol o ethol ymgeiswyr. Y mae Prydain Fawr ymhell ar ôl o'i chymharu â gwledydd eraill Ewrop.

Gofyn hefyd inni ail-wampio Tŷ'r Arglwyddi a gofalu ei fod yn cynrychioli gwahanol agweddau o fywyd, masnach a diwylliant.

DWY FFAIR

NI WN yn hollol beth yw'r Bwrdd Twristiaid y clywir cymaint o sôn amdano. Tybed beth fyddai'r Bwrdd yma yn ei feddwl o'r Ffair Wyl Grog a fyddai'n cael ei chynnal yng Nghaernarfon erstalwm. Ynddi y byddai ffermwyr llawr gwlad yn cyfarfod hogia'r defaid bach o'r mynydd-dir, y visitors fel y'u gelwid yn Eifionydd. Gan i mi dreulio rhai blynyddoedd yn Eifionydd cyn dod yn un o hogia'r mynydd, gwn am y ddwy ochr i'r busnes bargeinio am le i ddefaid cadw. Cof gennyf am fy nhad yn dod adre o'r ffair tua'r flwyddyn 1914. Yr oedd wedi bod yn holi yno am le i bori i'r defaid dros y gaeaf ac wedi methu cael neb i osod tir iddo am lai na phedwar swllt a chwech. 'Roedd wedi cael sioc, gan mai tri a chwech y bu'n rhaid iddo dalu y flwyddyn cynt. Codiad o swllt — dyna i chi chwyddiant.

Cofiaf fel y byddai'r ffermwyr yn hel i'r un cerbyd yn y trên i drafod y prisiau cyn dod i'r ffair. Llauer i hwyl i'w gael wrth wrando yn ddistaw ar y trafod ac ambell i weipan yn cael ei thafu fel "Gawsoch chi hyd i'r cryman hwnnw 'roeddech chi wedi ei golli llynedd?" Ar ôl cyrraedd byddai llauer yn mynd "dan do" i daro'r fargen. Hwyrach y byddai'n hawddach gwneud hyn ar ôl cael dipyn o olew ar y cocos.

Pan ddeuai dyddiau Diolch-garwch byddid yn symud y defaid bach o'r mynydd i fwrw'r gaeaf ar diroedd is yna deuent yn ôl drachefn yn ystod yr wythnos gyntaf yn Ebrill. Deuai'r 5ed o Ebrill heibio'n fuan iawn i hogia'r mynydd ond nid mor fuan i hogia'r gwaelodion. Cofier nad oedd lori i'w cario, fel sydd heddiw; byddai'n rhaid eu cerdded bob cam. Ystyriwch mynd â defaid o lethrau Llanberis yn y modd yma i lefydd mor bell â Llangybi a Chwillog. Mae llauer i stori dda a digri am amryw o'r cymeriadau a fyddai'n 'gyrru'r' defaid. Gwaith sychedig iawn oedd cerdded y lôn bost ac fel llauer hen gar, 'roedd yn rhaid aros weithiau i gael dipyn o "betrol". Tri lle pwysig y pryd hynny oedd Pantglas, Bryncir a Glandwyfach. Byddai'r amaethwyr yn dod i gyfarfod y visitors i'r lleoedd hyn ac yn cymryd y defaid oddi wrthynt. Ar ôl cael tamaid byddai'r visitors lluddedig yn troi am y stesion i ddal y trên am adre. Byddwn yn sylwi fel y byddai'r cŵn yn syrthio i gysgu yn syth ar ôl i'r trên gychwyn a pha ryfedd hynny ar ôl y fath waith caled. Wrth gwrs, nid oes trên yn y rhan yma o'r wlad heddiw ac nid yw lliw ei mwg ar y defaid.

Ffair arall bur bwysig fyddai Ffair Gaeaf Caernarfon. Ar y Gwener a'r Sadwrn cyntaf yn Rhagfyr y cynhelid hon. Ffair anifeiliaid a fyddai ar y dydd Gwener a chadwyn mawr wedi ei osod o amgylch y maes rhag i'r anifeiliaid faeddu'r pafin. Cyn gynted ag y byddai'r ffair anifeiliaid trosodd fe ddeuai gwyr y Corporesion i lanhau'r maes. Ceffyl fyddai ganddynt yn tynnu'r car dŵr a'r brws troi. Trannoeth, y Ffair Bob Peth fyddai ymlaen, a'r maes yn llawn o stondinau. Byddai'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn heidio i hon, yn enwedig chwarelwyr Llanberis. Yn Neuadd y Farchnad byddai menyn yn cael ei werthu. Menyn pot, wedi ei hel yn ystod

yr haf ar gyfer y ffair. Os byddai rhywun wedi cael ei blesio gyda menyn da byddai'n mynd at y masnachwr menyn ac yn gofyn iddo o hyn ymlaen gadw pot o fenyn lle a'r lle iddo. Byddai bargeinio caled a'r gwerthwr yn cymell y cwsmer i flasau, 'does dim siawns i neb flasau y menyn sydd yn dod heddiw wedi ei lapio mewn papur gan ryw beiriant mewn gwlad dramor. Sonir yn y papurau newyddion am ryw fynydd o fenyn ond yn yr Hôl yng Nghaernarfon mydylau oedd y potiau wedi eu troi wyneb yn isaf. Faint sydd tua Llanberis heddiw yn cofio mynd i'r chwarel hefo brechdan a menynd pot arni?

R.O. Pritchard

CYFRANIADAU

Diolch i'r canlynol:

£2: M. Owen, Lewisham.

Di-enw Bethel — £1. Diolch yn fawr.

Gw'bod y'ch Beibl

Mae yr Hen Destament yn gorffen gyda Melltith; a'r Testament Newydd gyda Bendith. Mae hyn yn ddigon cyfaddas, gan fod y naill yn cynnwys y ddeddf a'r llall yn ddatguddiad gras. Adnod canol y Beibl yw Salm CVII.8 adnod fwyaf y Beibl yw Esther VII.9. Adnod fyrfaf y Beibl yw Exodus XX.13, dim ond pump llythyren. Yn Salm CVII mae pedair o adnodau yr un fath sef 8fed, 15fed, 21ain a'r 31ain. Mae pob adnod yn Salm CXXXXI yn gorffen yr un fath. Y bennod hyfrytaf i'w darllen yw Actau XXVI. Y brydferthaf yw Salm XXXIX. Y pum addewidion mwyaf calonogol yw Salm XXXVII.4; Mathew X.128; Ioan VI.37; Ioan X.1V.2; Ioan X.1V.23. Dylai bob dyn sydd yn ymffrostio yn ei berthffeithrwydd ddysgu y 6ed pennod o Mathew, a dylai pob dyn, pwy bynnag yw ddysgu y 6ed bennod o Luc, a'r 20fed adnod hyd y diwedd.

E.O. Thomas.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

Bethel

DIOLCH — Dymuna teulu y diweddar Humphrey Williams, Gwylfa, (Llys Iolen gynt) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth sydyn, mewn blodau, llythyrau a chardiau, hefyd y cyfraniadau hael er cof, a alluogodd y teulu drosglwyddo £205 i gronfa leol 'ymchwil y galon'. Diolch hefyd i Mrs Enid Jones am y gerdd goffa yn y rhifyn diwethaf. Diolch i bawb.

MERCHED Y WAWR — Llywyddwyd y cyfarfod misol gan Mrs Beti Owen, Crud yr Awel. Cydymdeimlodd â rhai aelodau a dymunodd adferiad buan i eraill. Bu aelodau o'r gangen o gwmpas y pentref yn casglu at y 'Cheshire Homes' a chasglwyd y swm o £32.72.

Croesawyd Mrs Hannah Jones o Lanberis i arddangos ei gwaith crosio. Mwynhawyd y noson yn fawr a diolchwyd iddi gan Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd. Gwestwragedd y te oedd Mrs Margaret Hughes, Snowdonia a Mrs S. Hughes, Bro Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs Kathryn Jones, Y Ddolwen.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol ar 9 Mai dan ofal Mr G. Davies, Y Ddôl.

EISTEDDFOD CAERNARFON A'R CYLCH — Mae'r Pwyllgor Lleol bellach wedi trosglwyddo £1,827 o gyfraniadau o Fethel a Llanddeiniolen i'r Gronfa Leol. Rydym yn graddol gyrraedd y nod ac mae pob gobaith y bydd £2,250 wedi ei gasglu cyn mis Awst.

Enillwyr y Clwb 100 a dynnwyd yn ystod y mis oedd: 1) Mr W.G. Ellis, 15 Cremllyn (£20); 2) Mr John Cadwaladr Williams, y Waunfawr (£10); 3) Mrs Shirley Evans, Erwaur Gwynt (£5); a Mr Peter Pryddir Jones, Bwlch y Gwynt (£5).

Y NEUADD GOFFA — Mae'r estyniad newydd i'r Neuadd yn dod yn ei flaen yn sydyn rwan ar ôl i'r tywydd wella, ac mae'r bechgyn o Gweithgarwch Bro yn gwneud gwaith ardderchog. Cynllun dan nawdd y Llywodraeth yw Gweithgarwch Bro sy'n rhoi cyfle i ieuenctid gael profiad o weithio ar ôl gadael ysgol a chyn cael swydd barhaol. Mae'r gwaith maent wedi ei wneud ar y Neuadd yn haeddu pob canmoliaeth.

ac 'rwy'n siŵr fod y pentrefwyr i gyd yn hynod ddiolchgar i'r hogia'.

Fe gynhelir cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd nos Wener, Mai 4 yn y Neuadd. Gofynnir i bob aelod o'r Pwyllgor wneud ymdrech arbennig i fod yn y cyfarfod.

YR URDD — Daeth llwyddiant i ran tri o aelodau Cangen yr Urdd yn yr Eisteddfodau diweddar. Bu Meinir Williams yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth Canu a Cherdd Dant a Manon Williams yn y gystadleuaeth Adrodd a Chanu a David Roberts, Cefn y Gwynt yn y gystadleuaeth adrodd ail iaith yn yr Eisteddfod Gylch yn y Groeslon.

Mae Meinir hefyd wedi llwyddo i fynd drwodd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Maesteg i gystadlu yn y gystadleuaeth Cerdd Dant dan 9 oed.

CYMANFAOEDD YR YSGOLION SUL — Dydd Sul, Mai 6 bydd Ysgol Sul Capel Bethel yn mynd i'w cymanfa yng Nghapel Salem Caernarfon ac Ysgol Sul y Cysegr yn mynd i Gapel Disgwylfa, Deiniolen.

Dymunwn y gorau i'r ddwy Ysgol Sul.

CYDYMDEIMLO — Dydd Iau, Ebrill 19 yn yr ysbyty bu farw Mr Robert Rowland Jones, 10 Cremllyn. 'Rydym yn estyn ein cydymdeimlad llwyr â'i wraig a'i deulu yn eu profedigaeth.



Mr Geraint Elis, B.Sc., Sycharth, Bethel, gohebydd yr Eco ym Methel, sydd wedi cael ei benodi yn Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol. Llongyfarchiadau gwresog iddo.

Primin Menai

Sioe amaethyddol Treborth; chwaer Sioe Flodau Porthaethwy.

Ym Mhrimin Menai eleni, Sadwrn, MAI 5, yng nghaeau Treborth bydd cyfle da i grefft-wyr a busnesion bach gael ffenest siop i'w nwyddau ar ddechrau cyntaf tymor yr haf. Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd ymateb da yn lles i'r sioe ac yn teimlo'n gryf bod lle pwysig i weithdai a mân fusnes yn yr ardal.

Mae'n debyg mai cystadleuaeth i'r plant fydd y fwyaf diddorol, cystadleuaeth lywethod (pets). Cafwyd addewid am gydweithrediad rhai ysgolion lleol a rhagwelir y bydd gan Mr Islwyn Davies, Porthaethwy gryn dasg yn gofalu na fydd y cŵn yn cwffio ac yn hela'r cathod a'r cwningod a throir'r maes yn bedlam.

Wrth gwrs sylfaen y Primin fel arfer yw adran fawr y merlod a'r cobiau. Gobeithir y bydd ceffylau trymion hefyd. Bydd Gwartheg Duon a mulod a chystadleuthau ceffylau i blant, adran hen beiriannau, ac un

adran newydd, sef defaid, yng ngofal John Eyton Jones, Llanfair a choleg Pencraig a Mr Gerallt Lloyd Owen, Penrhos.

Troedio'n Ofalus



Pedwar o hogia' glew Llanbêr yn mentro troedio ar Lyn Padarn pan rewodd yn 1963. Bryn Parry, Jac Roberts, T. Pritchard a'r diweddar Richard Roberts yw'r pedwar dewr. Ni chafwyd gaeaf tebyg wedyn tan y flwyddyn hon.

BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU — i Carl Anthony Wager, mab hynaf Mr a Mrs Colin Wager, Llythyrdy ar ei ben-blwydd yn 21 oed, Ebrill 4, 1979.

LLWYDDIANT — Mae Ashley Gwynan Wager, ail fab Mr a Mrs Wager, Llythyrdy wedi llwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiadau C.I.T.B. Derbyniodd ei dystysgrif mewn seremoni yn Stockton on Tees ar Fawrth 17, 1979.

CROESO GARTREF — i Tom Thomas Isallt; da yw clywed ei fod ef a'i gyfeillion wedi dychwelyd yn ddiogel o Batagonia ac edrychwn ymlaen gyda diddordeb mawr am y rhaglenni sydd i ddod ar y teledu.

CLWB YR HENOED — Da yw clywed fod y clwb i ailgychwyn ar Ebrill 24, pan etholir swyddogion a threfnu rhaglen o weithgareddau am y tymor newydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Daeth nifer o aelodau ynghyd yn Nhŷ Glas ar Ebrill 19, pan ddaeth Mr Derek Rees o Gaernarfon atom i ddangos sut i drin gwallt. Mrs Hannah Jane Jones oedd y fodel a diolchwyd i Mr Rees gan Mrs Carol Houston. Rhoddwyd y te gan Mrs Jennie Williams a Mrs Jennie Hughes. Anfonwyd cofion at Mrs Jennie Hughes a chroesawyd Mrs Pat Jones yn ôl ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Megan Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Knox.

GWAELEDD — Dymunwn adferiad buan i Mrs Jennie Hughes, Bryn Garth ac hefyd i Mrs Monica McCafferby, sydd yn derbyn triniaeth yn ysbyty Minffordd. Croeso gartref i Mr Colin Wager, Swyddfa'r Post, a fu am gyfnod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl.

CLWB Y MAMAU — Daeth nifer o aelodau ynghyd yn Nhŷ Glas ar Ebrill 12 a chafwyd noson ddifyr yng ngofal Mrs Dorothy Wager o Swyddfa'r Post. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo ac fe'i enillwyd gan Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian. Rhoddwyd y te gan Mrs Shirley

Roberts a Mrs Audrey Roberts, gyda chymorth gan Mrs Carol Houston.

LLONGYFARCHION — i Audrey a Geraint ar enedigaeth mab newydd yn ysbyty Dewi Sant ar Ebrill 6. Fe elwir y bychan yn Tony — brawd newydd i Paul ac Andrew.

DYWEDDIAD — Llongyfarchion i Brian Jones, 11 Trem Eilian a Caroline McCall o Fanceinion. Peiriannydd gyda'r Bwrdd Trydan yn Atomfa Trawsfynydd oedd Brian, ond mae wedi symud i orsaf Aigroft ger Manceinion i fod yn agos at ei ddarparwraig.


CROESO — i Mr a Mrs Iestyn Griffiths sydd wedi dod i fyw i fwthyn Bryn Derw. Croeso atom a gobeithiwn y cartrefwch yn fuan ym Mrynrefail.

LLONGYFARCHION — i Meilir Lloyd Roberts, 8 Trem Eilian ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fawrth 29. Mae Meilir ar ei ail flwyddyn yng Ngholeg y Bwrdd Trydan ym Manceinion.

TRO DA — Achubwyd oen bach gan rai o blant y pentref, sef Delyth Roberts, Meinir Jones, Alwen a Caron Jones a Jackie Wager. Cafwyd yr oen bron yn farw yn y creigiau rhwng 'Rallt a Rhyddau Duon. Aethpwyd ag ef adref a daeth at ei hun ar ôl dropyn o frandi. Yr oedd y ffermwr yn ddiolchgar iawn ac fe roddodd bunt i'r plant am eu gweithred dda a'u trafferth.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyr mis Mawrth: Mawrth 2: 1) Elwyn Jones, 1 Trem Eilian; 2) Mike Collins, Deiniolen; 3) Pat Jones, Cae Coch. Mawrth 9: Eirianwen Evans, 6 Trem Eilian; 2) Betty Owen, Llwyncoed Bach; 3) Dafydd Ellis, Gwledfa. Mawrth 16: 1) Phyllis Jones, Gors; 2) Jinnie Williams, Bryn Melyn; 3) H.J. Jones, 7 Trem Eilian. Mawrth 23: 1) Margaret Jones, 1 Trem Eilian, 2) Mrs Owen, 10 Trem Eilian; 3) Derek Davies, Ceris. Mawrth 30: 1) Jennie Roberts, Glandwr; 2) Geraint Morris, Dinorwic House; 3) Betty Owen, Tros yr Afon.

Llyn Peris Mis Ebrill 1979



YSGOL LENYDDOL GREGYNOG

Gorffennaf 13 - 15, 1979

CYMRAEG Y PRIDD A'R CONCRIT

Darlithwyr:

Gwyn Erfyl, Vaughan Hughes, Gwyn Llewelyn, Alan Llwyd, Gwilym Roberts, W. H. Roberts

Am ragor o fanylion cysylltwch a:

Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru,
10 Tŷ Cae Ffynnon, Bangor, Gwynedd.

ETHOLIAD CYNGOR ARFON

I MEWN YN DDIWRTHWYNEBIAD

WARD: BRYNREFAIL,
PENISARWAUN,
A CHLWT-Y-BONT



Y CYNGHORYDD
PAT LARSEN

Nid oes gennyf etholiad y tro yma ac felly diolchiadau sydd gennyf yn bennaf. Diolchaf i drigolion fy etholaeth am eu cydweithrediad cyson a'u dealltwriaeth o waith a phroblemau cynghorydd.

Hefyd fy niolchiadau i'm cydyngghorwyr am eu cefnogaeth ar bwyllgor a chyngor. Mae y cydweithrediad yma rhwng Cynghorwyr yn hanfodol i hybu eu gwaith er lles yr etholaeth.

Yn olaf diolchaf i Dafydd Wigley ein A.S. ardderchog. Mae'n hysbys i bawb bod Dafydd yn weithgar ac yn ymdrechgar ac nid oes unrhyw broblem yn rhy ddibwys a lleol iddo geisio ei datrys. Ar lefel Cyngor Dosbarth a Chyngor Sir bu yn gefn i mi.

Hoffwn eich atgoffa fod croeso bob amser i chwi yn Llygad yr Haul, Penisarwaun i drafod unrhyw broblem yn ymwneud â gwaith cyngor. Os dymunwch, gallwch ffonio Llanberis 533, a gwnaf fy ngorau i'ch helpu.

WARD: BETHEL
RHIWLAS A SEION



Y CYNGHORYDD
SAMUEL JONES

Hoffwn ddiolch am gefnogaeth a chydweithrediad pawb yn yr etholaeth yma yn ystod y tymor olaf yma. Diolch hefyd am eich ymddiredaeth ynof. Ceisaf hyd eithaf fy ngallu eich gwasanaethu eto am dymor arall ar Gyngor Arfon.

ATODIAD LLANBERIS

CRONFA'R EISTEDDFOD — Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau i'r gronfa — Y Clwb Gwyddbwyll: £2; Y Cadets: £10; Cangen Plaid Cymru: £15.


'Rydym bron iawn â chyrraedd ein nod.

Nos Wener, Mai 4, cynhelir Noson Goffi a Helfa Chwilod gyda stondinau yn y Ganolfan am 7.30.

Nos Wener, Mai 11, bydd Noson Bingo a Chyw Iâr yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30, ond nifer cyfyngedig o docynnau a ellir eu gwerthu, felly y cyntaf i'r felin: gaiff falu. Gwerthir y tocynnau (£1) yn y 'Gift Shop' a chan Jane Morris.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf nos Fawrth, Mai 1 yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch. Apelir ar i'r cæglyddion ddod â'u llyfrau casglu a llyfrau derbynion gyda hwy.

WARD: LLANRUG



Y CYNGHORYDD
GWYNDAF JONES

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i etholwyr Llanrug am roi cyfle i mi eich cynrychioli am dymor arall ar Gyngor Arfon. Bu'r dair blynedd ddiwethaf yn amser prysur ac anodd gyda'r pwyslais pennaf wedi ei roddi ar geisio gwella cyflwr difrifol y Tai Cyngor. Bydd cynllun £60,000 ar wella Glan Moelyn yn dechrau wedi'r haf ond mae gwaith brwydro eto i gael cynnwys Rhos Rug a Bro Rhythallt erbyn y flwyddyn nesaf.

Gyda thm cryf o gynghorwyr a chefnogaeth diffuant Dafydd Wigley yr Aelod Seneddol gobaith am welliant eto yn y dyfodol. Cofiwch os gallaf eich helpu mewn unrhyw ffordd peidiwch petruso a galw.

NEWYDDION DA — O'R DIWEDD

Daeth newyddion da o Kampala yn Uganda i Mrs H.M. Roberts, 23 Dôl Eilian, Llanberis. Mae ei merch, Dilys, a'i theulu yn byw yn y wlad gythryblus honno, ac nid oedd Mrs Roberts wedi clywed oddi wrthi ers 6 wythnos. Chwi gofiwch lun o Jennifer, wyres Mrs Roberts yn rhifyn diwethaf yr Eco.

TAN-Y-COED

PRIODAS — Dydd Sadwrn y Pasg yng Nghapel Cysegr priodwyd Mr William Jeffrey Roberts, Tairnewyddion a Wendy Parker, Bethel. Bydd Mr a Mrs Roberts yn cartrefu ym Methel. Dymuniadau da yr ardal i'r ddau a phob bendith i'r dyfodol.

DYWEDDIAD — Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Miss Anita Edmund Jones, 7 Maesgerddi ar ei dyweddïad â Mr Glyn Hughes o Lanberis.

CROESO ADRE — i Mrs E. Ellis, 3 Tai Bryngwyn. Bu Mrs Ellis yn aros am gyfnod hir â'i mab Mr Tom Ellis, Nottingham, gafodd ddamwain ddifrifol tra'n teithio i'w waith. Da deall fod Mr Ellis yn parhau i wella.

YMDDEOL — Erbyn hyn mae Mr Eric Morris, Awelfryn wedi ymddeol, a'i ferch, Rhiannon, wedi cymryd y busnes drosodd. Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Eric Morris ar eu hymddeoliad a diolch yr ardal iddynt am eu llw cymwynasau gyda bws a char. Ein dymuniadau gorau hefyd i Rhiannon yn ei menter newydd.

COFION — at Mrs M.E. Shilton, Tan-y-coed Cottage sydd yn Ysbyty'r Brwth Caernarfon. Dymunwn adferiad buan i'w llygaid.

MARW — Nos Sul, Ebrill 8, Sul y Palmwydd bu farw Mr Ifor Williams, Cartref yn 67 mlwydd oed. Claddwyd ddydd Gwener y Grogleith, Ebrill 13 ym mynwent y plwyf gyda'r Parch. W.O. Roberts yn gweinyddu.

Dioddefodd Mr Williams gystudd hir yn siriol a di-rwgnach.

Cydymdeimlwn â'i fab, Michael, ei frawd, Jack, ei chwiorydd a'r teulu oll yn eu galar.

GWYLIAU — Gwelwyd rhai o blant yr ardal ar wyliau yn ystod y Pasg, yn eu mysg y Dr. David John Humphreys, Caermaen, Mrs Mair Hallows, Haddef a Miss Helen Wyn Pritchard, Garnedd.

CEUNANT

MARWOLAETH — Ebrill 18 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mr Robert Pierce, Bryn Glas. Bu'r angladd ym mynwent Llanrug ddydd Sadwrn, Ebrill 21. Cydymdeimlwn â'i chwaer Miss Mary Pierce a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

O AWSTRALIA — Croeso i'r ardal am 6 wythnos o wyliau i Mrs Marian Kendall (merch y diweddar Mr a Mrs O. Jones, Tan y Ffordd) a'i phlant, Steven a Susan. Dyma ymweliad cyntaf Marian â Chymru er iddi ymfudo i Awstralia gyda'i chwaer Gwyneth tua 18 mlynedd yn ôl.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ
Rhydd-
Feddiant

Llanberis

Perchennog
Aneuryn
Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED — Nos lau Ebrill 5 cyfarfu Sefydliad y Merched yn yr ysgol. Croesawodd Mrs Katie Jones y llywydd, rhai o'r aelodau a oedd wedi bod i ffwrdd. Llongyfarchodd Mrs Peggy Jones ar enedigaeth wyres fach a chydymdeimlodd gyda Mrs Betty Griffith yn ei phrofedigaeth.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Missen ar 'Arddio' ac fe ddangosodd rai o'r llysiâu, ffrwythau a blodau mae'n eu tyfu yn ei ardd yn y Waunfawr. Diolchodd Mrs Buddug Rowlands iddo. Enillodd Mrs Morley Williams y gystadleuaeth gwneud Bonet Past a Miss M. Roberts enillodd y raffl. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mai 3 pan fydd Trefnydd Gwirfoddol yn trafod y penderfyniadau.

YSGOL FEITHRIN — (Wythnos Feithrin Genedlaethol, Ebrill 30—Mai 5) — Bydd 'Prawn Agored' am 3 o'r gloch Mai 1af yn Ffestri Capel Croesywaun, yn cynnwys paned o de a bisgedi yn rhad ac am ddim. Crysau 'T' arbennig i'w prynu am £1.50 yr un. Gobeithio y cawn weld yr holl blant sydd wedi mynychu'r Ysgol Feithrin er y cychwyn yno er mwyn cael tynnu eu llun. Dowch yn llun.

GWLEDD YN SEILO — Cafodd tua dwsin o ferched y pentref flas garw ar berfformiad Cymdeithas y Gronyn Gwenith o'r 'Gŵr o'r Pentre Gwyn' yn Neuadd Seilo Caernarfon. Pasiant ydoedd ar fywyd y gwaith Anthropol, fu'n weinidog a newyddiadurwr yng Nghaernarfon. 'Roedd y neuadd yn llawn o bobl o bell ac agos, a merched Seilo wedi darparu lluniaeth ar ôl y perfformiad. Dim ond boliau barus y Waun a fentrodd i'r 'stafell fwyta a chafwyd lluniaeth mewn llawenydd! Diolch i ferched Seilo am eu darpariaeth, ac i'r Gymdeithas am eu perfformiad.

MERCHED Y WAWR — Treuliwyd noson ddiddorol ac addysgiadol iawn yng nghwmni'r Dr. Eirwen Gwynn ar nos lau, Mawrth 22. Siaradodd yn effeithiol iawn ar 'Ischyd Trwy Fwyta'. Llywyddwyd y noson gan Mrs Mary Vaughan Jones yn absenoldeb y llywydd Mrs Alma Jones. Rhoddwyd y diolchiadau gan Olwen Williams. Gwestwragedd y te oedd Iona Williams a Gillian Wynn, ac enillydd y raffl, a roddwyd gan Mrs Menna Williams, oedd Luned Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni cangen Llanrug ar nos lau, Ebrill 26, pryd ceir cwis rhwng y ddwy cangen.

GENEDIGAETHAU — Llongyfarchiadau i John a Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon ar enedigaeth merch fach, Bethan Wyn. Hefyd ganwyd merch fach, Emily, i Gilian a Rae Willis, Pant y Defaid — chwaer fach i Lucy.

DYWEDDŌ — Llongyfarchiadau i Iris Hughes, 16 Tref Eilian ar ei dyweddïad â Keith Owen, 10 Bryn y Gof, Caeathro.

GARTREF O'R YSBYTY — Croeso adref i Mrs Nancy Thomas, Tan y Foel a Miss Marilyn Roberts, Bod Afon. Dymunir adferiad buan i'r ddwy.

PROFEDIGAETH — Bu farw Mr Richard Pierce, 24 Tref Eilian, gŵr Mrs Lizzie Pierce a thad Gwynfa a Goronwy. Estynnir ein cydymdeimlad tuag at y teulu. Cydymdeimlir hefyd â Mrs Betty Griffiths ar golli ei thad.

EISTEDDFOD Y GOBEITHLU O'R YSGOL SUL — Cynhaliwyd yr Eisteddfod uchod yn festri capel Bethel, nos Wener, Ebrill 6. Llongyfarchiadau i'r plant a gystadlodd i'w gwneud yn Eisteddfod lwyddiannus. Diolch hefyd i bwyllgor yr eisteddfod a'r swyddogion am eu gwaith.

B a B — Mae mawr angen llety ar bobl fydd yn dod i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ddechrau Awst

Felly os oes gennych dy i'w osod, stafelloedd neu garafan, neu os oes diddordeb gennych mewn cynnig Gwely a Brecwast i Eisteddfodwyr, cysylltwch a Mrs Iona Williams, Coed Gwydryn, Waunfawr mor fuan ag sy'n bosibl.

CLWB GWYRFAI — Cafwyd dau gyfarfod diddorol yn ddiweddar o dan arweiniad Mr William Jones, Tyddyn, a ymfudodd i Awstralia pan nad oedd ond yn 17 oed. Soniodd am ei fywyd amrywiol yno lle bu'n hyfforddi a chludo ceffylau i Singapore, India a Thibet.

Cynhelir Ffair Wanwyn ar Fai 17, a threfnir y Daith Flynyddol yn y dyfodol agos.

HWYL Y TE

Peth difyr ydyw gwrandio
Ar droeon trwstan rhai,
Pan fo nhw'n ddigon gonest
I ddisgyn ar eu bai.

A dyna yw'r sefyllfa
Am deulu Llidiart Wen,
Fu 'rioed y fath gamsyniad
Fu 'rioed y fath anrhefn.

Mae ganddynt lu o ffrindiau,
Yn ardal deg Waunfawr,
Nis gallaf fyth eu henwi,
Mae'r cyfrif yn rhy fawr.
Mae Alma, Rob a'r plantos
Ymhlith y rhain 'rwy'n siŵr,
A theulu hynaws Pen-y-bryn
Sy'n annwyl a di-stŵr.

Mae gwraig Pen-bryn i'w chanmol
Am ddysgu iaith y fro,
A'r rhai sy'n galw heibio
I'w helpu yn eu tro.
Wrth siarad gyda ffrindiau
Trwy'r ffôn, hawdd iawn yw gwneud
Rhyw gamgymeriad rhyfedd,
Er gwylio beth i'w ddweud.

Fe'i galwyd hi rhyw ddiwrnod,
Am sgwrs fach ar y ffôn,
A chym'rodd hi mai Rob oedd ef
Yn sgwrsio ac yn sôn.
Gwahoddodd ef a'i deulu bach
Ddod ati am de rhyw bnawn,
A Norman ochor arall
Heb ddallt y peth yn iawn.
Pan ddaeth y penodedig ddydd
Gwraig Pen-y-bryn a ffoniodd,
I Alma i ddeud am iddynt ddod
I de, yn ôl a drefnodd.
Yn syth aeth Alma gyda'r plant
Ac yno cafodd groeso,
Tra Norman yn darparu'r plant
Ac Olwen i fynd yno.

Ac wedi cyrraedd yno
Yn hapus iawn eu pryd,
Fe welsant Alma gyda'r plant
Yn disgwyl am eu pryd.
Fe welodd Olwen yn y fan,
Fod rhywbeth bach yn 'smala',
Ond Norman oedd heb feddwl dim
Yn ddyn i gyd yn gwledda.


Sibrydodd Olwen wrth ei gŵr
A hynny'n ddistaw iawn,
Fod camgymeriad wedi'i wneud
Er fod y byrddau'n llawn,
"Embaras", meddai Olwen
Fu ffasiwn beth erioed,
A Norman wedi bwyta
Fel llencyn deunaw oed.

Ond diolch am gwrteisi
Y foneddiges hael,
Wnaeth hi ddim croesi geiriau
'Roedd digon yno i'w gael,
Ond Olwen annwyl cymer di
Pob trefniant yn dy ddwylo,
A Norman fydd yn barod iawn
Am hynny i'th anwyllo.


(Y Frân Wen)

Etholiad Cyngor Arfon

WARD WAUNFAWR, CEUNANT,
BETWS GARMON a RHYD-DDU.



DAFYDD IWAN
— PLAID CYMRU



O.T. JONES
— ANNIBYNNOL

Ystyriaf hi'n frain i gael cynnig
fy hun eto fel ymgeisydd am sedd
ar Gyngor Arfon. Wedi tair
blynedd o brofiad ar y Pwyllgor-
au Tai, Cynllunio, Cyllid a Pholisi
'rwy'n barod am dymor arall i'ch
gwasanaethu hyd eithaf fy ngallu.

Gallaf grynhofi fy neges fel hyn:
— mae dyfodol Cymru yn
dibynnu i raddau helaeth ar ein
pentrefi. Y rhain yw asgwrn cefn
ein cenedl a'n diwylliant, ein
crefydd a'n hiaith. Felly rhaid
gofalu fod mwy o'n pobl ifainc
yn medru cael cartrefi yma, a
gwaith o fewn cyrraedd
hwylus. Rhaid i gymdeithas fyw
dyfu.

Bu tuedd i ganoli tai a gwaith yn
y trefi. Mae'n bwysig yn awr i'r
pentrefi gael eu cyfran deg.
'Rwy'n arbennig o falch inni
lwyddo i gael Cyngor Arfon i
wario tua £90,000 ar dri chynllun
yn ardal Waunfawr yn 1979-80.
Ond mae digon o le i wella, e.e. y
cyflenwad dŵr a thrydan, a'r
lonydd bychain.

Hyderaf y caf eich cefnogaeth
fel y gallaf gario ymlaen â'r gwaith
am eich rhan.

Wedi blynyddoedd maith o was-
anaeth mewn llywodraeth leol ar
raddfa sirol a chymunedol, credaf
y byddai fy mhrofiad o fudd cyff-
redinol i'r ardal, ac apelïaf am eich
cefnogaeth.

'Rwyf yn sefyll fel ymgeisydd
Annibynnol am y credaf mai
dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i
wasanaethu'r cyhoedd heb fod yn
llyffetheiriol i unrhyw blaid
boliticaidd.

Un o brif ddyletswyddau'r
Cyngor yw sicrhau tai addas i'r
trigolion. Er prinder arian, teimlaf
hefyd fod brys mawr i atgyweirio
tai presennol y Cyngor, a gwella'r
ffyrdd a'r manau parcio yn yr
ystadau hyn.

Rhoddir pwyslais mawr ar yr
amgylchedd heddiw, a chredaf y
gellir gwneud llawer yn ein
pentrefi yn y cyfeiriad yma.

Mae rhai ardaloedd yn brin o
anghenion cymdeithasol —
meysydd chwarae, a man cyfarfod
i'r hen a'r ifanc. Os etholir fi
hyrwyddaf y dyheadau hyn yn
frwdfrydig a diffuant.

Diolchaf am y croeso a dderbyn-
iais wrth ymweld â'ch cartrefi.

CARPEDI A BLEINDS

Gwasanaeth Glanhau Carpedi yn eich tŷ (peiriant stêm)

Cewch ddewis eich carped yn eich tŷ
neu'r storfa (ffoniwch gyntaf)

ORIAU BUSNES — UNRHYW DDIWRNOD
AC UNRHYW AMSER

JAMES A. WILLIAMS
ARBENIGWR CARPEDI
RHOSGADFAN

FFÔN: LLANWINDA 830796 (unrhyw amser)

SIBRYDION O'R YSGOLION



Ymweliad dyn pwysig iawn ag Ysgol Brynrefail, Llanrug — Mister Urdd.



Rhai o blant ysgolion Llanrug, Dolbadarn a Phenisarwaun a dreuliodd benwythnos yng Ngwersyll Glan Llyn yn ddiweddar.



Petula Williams a ddaeth yn drydydd ym mhencampwriaeth rhedeg traws-gwlad Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghei Connah.

**HWYL I
BAWB O'R
FRO YM
MAESTEG**

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

PRYDFERTHWCH NATURIOL YR ARDAL

Wedi gaeaf hir a chaled yr oedd Sadwrn, Ebrill 14 yn ddiwrnod bendigedig o braf ym Mhenisarwaun, gyda'r tymheredd yn cyrraedd 68°F. Nid felly yng Nghwm Glas, yno yr oedd hi'n aeaf o hyd; yr oedd y ddau llyn wedi rhewi'n gorn a'r llyn uchaf bron o'r golwg gan luwch eira. Yn y llyn isaf y mae ynys gyda choed yn tyfu arni; dydd Sadwrn yr oedd modd cerdded ar draws y llyn ar y rhew a chyrraedd yr ynys.

Aethom yno i chwilio am flodyn alpaidd cyntaf y flwyddyn i flodeuo sef Blodyn yr Escimo chwedl Evan Roberts, Capel Curig. Ei enw Lladin yw *Saxifraga oppositifolia*.

Yr oedd cymaint o eira yn y cwm fel nad oedd obaith i'r blodyn flaguro yn ei amser arferol.

Ond nid oedd pethau yn hollol anobeithiol canys yr oedd dau aderyn wedi cyrraedd o wledydd tramor cynnes: Tinwen y Garreg a Gwas y Gog.

Cwmglas yw'r cwm harddaf yng Nghymru os nad ym Mhrydain; ac mae'n rhan o'n bro ni. Gresyn o beth yw nad oes llawer ohonom ni bobol leol yn ymweld â'r lle cyn bendigedig hwn. Mae Cwmglas ar ei orau ym Mehefin gyda'r creigiau yn ferw o blanhigion mynyddig.

EISTEDDFOD MAESTEG

DYMA'R pedwerydd tro i barti Cân Actol o Ysgol Gwaun Gynfi gynrychioli cylch Arfon yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Y testun eleni yw 'Y Sioe'. Mae'r Gân Actol yn portreadu Sioe Amaethyddol Wledig. Gan fod sioe felly mor amlochrog, mae rhai o'r plant yn gorfod symud a newid yn sydyn iawn i bortreadu mwy nag un cymeriad.

Dyma'r tro olaf y bydd Annette Roberts yn cyfeilio i'r Gân Actol. Mae Annette yn gyn-ddisgybl ac mae dyled yr ysgol yn fawr iddi. Fel ysgol, dymunwn yn dda iawn iddi yn y Coleg ym Manceinion.

DEINIOLEN

Bu Delyth Fôn Williams, 12 Ffordd Deiniol, Deiniolen yn fuddugol ar yr Unawd Biano dan 12 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor ar Fawrth 31. Daeth Sharon Vaughan Williams, Ynys Iago yn ail yn yr un gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt a dymunwn bob hwyl i Delyth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg ym mis Mai.



Delyth Fôn Williams o Ysgol Gwaungynfi a enillodd ar yr Unawd Piano dan 12 oed yn Eisteddfod y Sir o'r Urdd. Ei hathro yw Mr John Griffith, Cae'r Bythod, Deiniolen. Hwyl ym Maesteg Delyth.



Meinir Dauncy Williams o Fethel a enillodd ar yr unawd Gerdd Dant dan 9 oed. Pob hwyl iddi ym Maesteg.

E.W.&M.WILLIAMS



**Y BECWS
DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,**

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

PLISMAN PLANT 1903

YR OEDD dydd Sadwrn, Mawrth 26, 1938 yn ddiwrnod arbennig yn hanes Swyddogion Presenoldeb Sir Gaernarfon. Gwahoddwyd hwy ynghyd gan Mr R.T. Roberts, Prif Swyddog Presenoldeb i'r Swyddfa Addysg i ddymuno'n dda i Mr Owain Tudur Thomas, Rhianfa, Llanrug ar derfyn ei wasanaeth o 34 mlynedd. Penodwyd ef yn Swyddog Presenoldeb Hydref 30ain 1903. Dechreuodd ar ei waith Tachwedd 3ydd y flwyddyn honno. "Plisman Plant" y gelwid ef gan blant a rheini. Ond cofiwch hyn, "Cyfaill Plant" oedd Owain Thomas mewn gwirionedd fel pob plisman.

Ym mhob modd fe lanwodd ei swydd i'r ymylon. Dyma ei arwyddair: "Cadarn pob Cyfiawn". Dyn cadarn, cyfiawn, llawn brwdfrydedd a thân a dyn arbennig o werthfawr i'r cylch oedd ef. Byddai ei awdurdod a'i ddull o ddisgyblu wedi eu "tymheru" â chydymdeimlad a charedigrwydd tuag at blant oedd yn colli'r ysgol neu'n chwarae triwant.

Diddorol yw sylwi y penodwyd deg swyddog i wneud y gwaith yn y sir, ac i roddi eu holl amser i'r gwaith.

I ddangos gwerthfawrogiad ohono fel cyfaill fe'i anrhegwyd â thair cyfrol o lyfrau Cymraeg.

Llywyddwyd y cyfarfod gan yr Henadur J.R. Pritchard, oedd wedi llenwi'r swydd o gadeirydd y Pwyllgor Presenoldeb am y cyfnod maith o 34 mlynedd. Wrth ddiolch ar y diwedd dymunodd Owain Thomas yn dda i'r rhai oedd yn aros yn y gwaith, a galwodd sylw at yr ysbryd cyfeillgar a ffynnai rhwng y swyddogion a'i gilydd. Rhoddodd glod i'r Prif Swyddog am hyn.

Terfynwyd y cyfarfod trwy gyd-eistedd i gael pryd blasus yng Ngwesty Hooson's Caernarfon. Fel hyn y canodd cyfaill ar yr amgylchiad:

Bu'n ddygn yn crwydro drwy'r cymoedd,

O ysgol i ysgol o hyd:
A mawr fu ei helynt a'i drafferth
I ddwyn rhai colledig ynghyd.
Ond 'nawr fe gaiff heddiw a thawelwch
I lwybro lle bynnag y myn:
Mor fwyn fydd cael arwain eisteddfod
Neu 'sgota ar ffiniau'r hen lyn.

D.M.R.

MANYLION

Brodor o Frynsiencyn oedd Owain Thomas. Daeth i Lanrug i weithio fel 'porter' yn Stesion y rheilffordd, Pontrhyallt am rai blyneddodedd cyn cael ei ddewis yn 'blisman plant'.

Bu'n aelod selog ac yn athro Ysgol Sul ac Arolygwr yn y Capel Mawr Llanrug am flynyddoedd.

Ef oedd Ysgrifennydd yr Eisteddfod yn y Capel Mawr am lawer blwyddyn. Byddai'r Eisteddfod honno ddeng mlynedd a thrigain (70) o flynyddau'n ôl yn parhau am dri neu bedwar diwrnod. Y mae olion a dylanwad addysg 'Coleg Eisteddfod' ar bobl yr ardal o hyd.

Bu hefyd yn ysgrifennydd y Carnifal a'r Chwaraeon ym Mryn Bras adeg Mr a Mrs Alves, ac yn ysgrifennydd y Band am flynyddau, ac ef oedd ysgrifennwr

nydd y Sefydliad Coffa pan agorwyd hi.

Yr oedd Owain Thomas yn ben-



campwr ym myd adrodd ac actio mewn dramâu. Enillodd lawer o fedalau am hyn. Dysgodd eraill i adrodd ac i actio. Ef a ffurfiodd ac a ddysgodd Barti 'Y Tri O', sef Owen Ellis Jones, Bryn Hyfryd; Owen Jones, Islwyn; ac Owain T. Thomas. Dysgodd hefyd barti 'Y Tair M' sef Mrs M.M. Owen, Southport; Mrs M. Vaughan Jones, Graigwen; (Mrs M. Lloyd Williams).

Bu hefyd yn ddiwyd yn helpu Mrs Laura G. Owen, Isallt gyda gwaith yr Urdd yn yr ardal.

Y mae merch y diweddar Mr a Mrs Owain T. Thomas, sef Mrs Meinir Pierce Evans, Rhianfa, William Street, Caernarfon newydd ymddeol o'i swydd fel Matron 'Cartref yr Henoed' Plas Maesincla Caernarfon. Rhoddodd wasanaeth ffyddlon a gwerthfawr yno am dros ugain mlynedd.

Y mae merch arall, Mrs Ceinwen Roberts yn byw yn Ael-y-Bryn, Tan-y-coed.

Y mae eu hunig fab Mr Tudur Thomas yn byw yn Llandudno.

Bu farw Owain Thomas yn sydyn iawn ddiwedd Hydref 1944 yn 71 mlwydd oed. Yr un diwrnod bu farw ei frawd-ynghyfraith, Mr Tom Jones, Tyddyn Rhyddallt, hefyd yn sydyn iawn. Digwyddiad anghyffredin a thrist oedd i ddwy chwaer fynd yn weddw yr un diwrnod, a hynny mor frawychus o sydyn.

GENI TUDUR

O wynfyd daeth i Rhianfa - aer del
Llona'r Dolig yma:
Â'i wên hoff - Tudur bach wna
Yr hen Dudur yn dada.

Dewi Orwig.

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU - Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug oedd y wraig wadd yng nghyfarfod Undeb y Mamau a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd y Cwm ar nos Fawrth yn yr wythnos fawr. Ei thestun oedd Arian Dydd Iau Cablyd a rennir gan y Frenhines. Amlwg yw fod Mrs Lloyd Williams wedi gwneud astudiaeth fanwl o'r pwnc ac fe gaed noson ddiddorol ac addysgiadol iawn. Y Rheithor a arweiniai'r gwasanaeth agoriadol a chyfeiliwyd gan Miss C. Hughes. Diolchwyd i Mrs Lloyd Williams gan Mrs Orritt, Morannedd. Y gwest-wragedd oedd Mrs R. Roberts, Bryn Gro a Mrs Owen, Isfryn a diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Diweddwyd drwy weddi.

Y GROGLITH A'R PASG yn Sant Gabriel - Gwelwyd cynulleidfa dda yng ngwasanaeth y Groglith eleni. Y Rheithor a arweiniai'r gwasanaeth. Y Rheithor a weinyddai yr Offeren fore'r Pasg a da oedd gweld cynulleidfa mor luosog. Yr organydd oedd Miss C. Hughes.

MERCHED Y WAWR - Ar Fawrth 21 cawsom noson lawern hwyliog a diddorol yng nghwmni cyfeillion cangen Brynaerau o Ferched y Wawr.

Mrs Lowri Prys Roberts - llywydd y flwyddyn, a Miss Mat Pritchard, yr islywydd oedd yn gyfrifol am yr adloniant, a darparwyd danteithion traddodiadol Gymreig gan aelodau'r gangen. Mrs Gwyneth Chick oedd yr arwein-ydd yn y cyngerdd.

Cyfrannodd y gwahoddedigion eu heitemau hwythau o ganu ac adrodd i'n difyrro.

Cyfansoddodd Miss Pritchard gân arbennig i groesawu'r gwahoddedigion a chanwyd hwy gan barti'r Cwm, gyda Mrs Lowri Prys Roberts yn cyfeilio.

Uchafbwynt y noson oedd y gystadleuaeth gwneud bonet Pasg, a'i wisgo. Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd aeth a'r wobwr gyntaf, gyda Mrs K. Watkins, Dolwen yn ail - canmoladwy iawn gyda'i model creadigol hi. Y beirniaid oedd Mrs Mary Vaughan Jones, y Waunfawr, a Mrs Betty Williams, Brynaerau. Trefnwyd cystadleuaeth gan Mrs M.V. Jones hefyd, a Chwm-y-glo enillodd o ychydig o bwyntiau.

Cafwyd sgets ar stori'r 'Mangl' allan o lyfr T. Rowland Hughes gan aelodau o'r Cwm. Rhoddwyd diolchiadau am y croeso gan Mrs Mairwen Jones, Pont-llyfni.

Mr a Mrs Cynrig Hughes, Rhiwlas oedd y gwahoddedigion mis Ebrill yma. Yn anffortunos ni allai W. Hughes ddod, ond diolchwn i Mrs Hughes am beidio ein siomi. Hanes y ddau yn croesi Asia ac Ewrop ar eu ffordd adre o Awstralia oedd ei phwnc, ac yr oedd ganddi sleidiau gwych o'r manau y buont ar eu taith. Nid treulio rhyw wyliau moethus oedd eu hamcan, ac hawdd deall eu bod wedi gweld dull o

fyw pobl cyntefig y trydydd byd ynghyd â lluniau gwych o'u temlau moethus. Teimlad pawb ar ôl gwrandao ar Mrs Hughes oedd y buasai llyfr ar eu hanturiaethau yn dderbyniol iawn.

Diolchwyd am noson i'w chofio gan Miss Mat Pritchard, Rhosbodrual a Mrs K. Watkins, Dolwen. Gobeithiwn gael clywed mwy am eu taith yn y dyfodol agos.

Y GANOLFAN - NEWYDD DA - Yn ddiweddar bu cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan, gyda Mr Geraint Ellis (Cyngor Gwynedd) yn bresennol. Cafwyd y newydd gan Mr Elis bod ymgymerwr adeiladu eisoes wedi ei archebu i wneud y gwaith, ac y bydd yn dechrau adeiladu unrhyw ddiwrnod. Yr oedd Mr Elis yn rhagweld y byddai'r agoriad swyddogol cyn y gaef nesaf.

GWAELEDD - Yn ystod y mis diwethaf bu llawer o blant y pentref o dan rhyw anhwylder neu'i gilydd. Dymunir adferiad buan a llwyr iddynt oll.

O'R YSBYTY - Croeso'n ôl adref i Mr Johnny Phillips, Groeslon, ac hefyd i Mr Tom Owen, 21 Dolafon.

YN YR YSBYTY - Dymunwn adferiad buan i'r canlynol sy'n yr ysbity - Mrs Evans, Arosfa; Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd a Mr E. Watkins, Dolwen.

PÊL-DROED - Mawrth 24, Cae Glyn - Cwm-y-glo, sgor derfynol 11-0.

Ebrill 5: Bethel - Cwm-y-glo, 3-2. Dyma gêm ragorol! Gwyn Morris a Wyn Sinclair yn sgorio i Cwm.

Ebrill 7: Cwm-y-glo - Bethel, 1-3 gyda Nigel Orritt yn sgorio i Cwm.

Ebrill 9: Cwm-y-glo - Waunfawr, 2-4, gyda Kevin Wyn Owen yn sgorio ddwy waith i Cwm.

Ebrill 11: Waunfawr - Cwm-t-glo, 1-1. Iestyn Jones yn sgorio i Cwm y tro hwn. Dyma'r pwynt cyntaf y tymor yma i Cwm. Trueni eu bod wedi gorfod chwarae yn erbyn y Waunfawr yng Nghaernarfon i'w hennill.

BETWS GARMON

CONFIRMASIWN - Yn Eglwys Crist Caernarfon ar bawn Sul y Blodau, Ebrill 7 confirmwyd Dewi Eurig, mab Mr a Mrs Iestyn Jones, Bryn Tegid, gan yr Esgob, y Parch. G.O. Williams, Bangor. Hefyd gydag Eurig confirmwyd Tegid Wyn Pritchard, mab Mr a Mrs Lleufer O. Pritchard, Min y Grug, Waunfawr. Hyfforddwyd hwy gan y Ficer, y Parch. E. Trefor Jones, Caernarfon.

O CANADA - Bu Margaret, merch Mrs C. Pritchard, Bryn Derwen ar ymweliad â'i mam am dair wythnos. Fe ddychwelodd i Ganada ddydd Gwener, Ebrill 27.

GWAELEDD - Mae Mr Amos Jones, Bryn Afon yn dal i fod yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Dymunir adferiad buan iddo.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Dyddiadur y Mis

MAI 1, Mawrth: WAUNFAWR — Yr Ysgol Feithrin, pnawn agored yn Festri Capel Croesywaun. LLANBERIS — Pwyllgor lleol Eisteddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00.
 Mai 2, Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau
 Mai 3, Iau: WAUNFAWR — Sefydliad y Merched — Trefnydd Gwirfoddol yn trafod penderfyniadau.
 Mai 4, Gwener: LLANBERIS — 1) Clwb yr Henoed; 2) Noson Goffi/Helfa Chwilod/Stondinau yn y Ganolfan am 7.30, yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
 Mai 5, Sadwrn: LLANRUG — Chwiorydd Capel Mawr — Gwibdaith i Gaer.
 Mai 7, Llun: LLANBERIS — 1) Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2
 2) Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 9, Mercher: LLANBERIS — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 10, Iau: LLANRUG — 1) Clwb y Mamau — Taith i Theatr Astra, Llan-dudno i weld comedi gerddorol 'Viva Mexico'. 2) Coroni Brenhines y Majorettes yn Neuadd Ysgol Brynrefail
 Mai 11, Gwener: LLANBERIS — Noson Bingo/Cyw Iâr yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
 Mai 12, Sadwrn — LLANBERIS — Disco yn y Ganolfan pryd y dewisir Brenhines y Carnifal. YR ARDAL — Sefydliad y Merched — Pleserdaith i Ynys Manaw

Mai 14, Llun: LLANBERIS — 1) Pwyllgor Llywio y Lleng Brydeinig Frenhinol yng Ngallt y Glyn am 8
 2) Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. 3) Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 15, Mawrth: PENISARWAUN — Clwb yr Heulwen
 Mai 16, Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau —AGM. CWM-Y-GLO — Merched y Wawr — Noson Goffi yn yr Ysgol. Yr elw at bleserdaith yr Henoed
 Mai 17, Iau: WAUNFAWR — Clwb Gwyrfa — Ffair Wanwyn. LLANBERIS — Pwyllgor Carnifal yn yr Ystafell Bwyllgor yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 18, Gwener: LLANBERIS — Clwb yr Henoed. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
 Mai 21, Llun: LLANBERIS — 1) Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.
 2) Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 23, Mercher: LLANBERIS — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 24, Iau: WAUNFAWR — Merched y Wawr
 Mai 25, Gwener: PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
 Mai 28, Llun: YR ARDAL — Yr Ysgolion ar gau dros Wyl y Sulgwyn
 LLANBERIS — 1) Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2
 2) Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30
 Mai 30 —Mehefin 2: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg

DYDDIADAU I'W COFIO

Mehefin 8 — Rali Geir yr Ysgol Feithrin, Waunfawr
 Mehefin 9 — Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri
 Mehefin 9 — Taith Gerdded Noddedig, Carnifal Llanberis
 Mehefin 23 — Y Gymdeithas Undebol Llanrug — Taith Hanesyddol i ardal Llangollen
 Mehefin 29 — Noson Goffi Clwb Methedig Eryri
 Gorff 13-21: Carnifal Llanberis.

Mehefin 30 — Ffair Haf Rigarug yng ngerddi Castell Bryn Bras

Yr Eco'n mynd o nerth i nerth

(Parhad o dud 1)

gyfraniadau ac am syniadau ar gyfer ei golofnau. Byddai'n croesawu unrhyw feirniadaeth ar ei dudalen hefyd.

Gormod o ddeunydd oedd problem Mr Arwel Jones, Golygydd Erthyglau. Ymddiheura i'r cyfranwyr am gadw eu cyfraniadau cyhyd. Bydd yn sicr yn defnyddio'r deunydd maes o law.

Tystiodd y Trysorydd fod y sefyllfa ariannol yn foddhaol. Mae gan yr Eco tua £400 wrth gefn ar y pryd — oherwydd yr ymgyrch-oedd hysbysebu Nadolig a chyfraniadau gan ddarllenwyr — ond gan fod yr Eco yn rhedeg ar golled o fis i fis buan iawn y gwelir yr elw yn lleihau. Mae dyled yr Eco i'r hysbysebwr rheolaidd yn uchel iawn. Heb hysbysebion busnesau'r fro — byddai'n amhosibl i'r Eco barhau.

Dywedodd Trefnydd Hysbysebion Mr John Roberts, fod yr Eco wedi cael mwy o hysbysebion y flwyddyn hon. Teimlai fod graddfeydd hysbysebion yn yr Eco yn rhy isel ac awgrymodd (ar ôl trafodaethau pellach) y dylid codi prisiau uwch ar hysbysebwr achlysurol a rhai tu allan i'r fro.

'Roedd adroddiad y Trefnydd Gwerthiant yn galonogol hefyd. Ar gyfartaledd gwerthir tua 2,500 o rifynnau. Cyhoeddodd Mr


Selwyn Williams ei fod yn ymddiswyddo fel Trefnydd Gwerthiant er mwyn cael rhyddid i gyfrannu'n ysgrifenedig i'r Eco. Mr Ian Pierce o Lanrug fydd yn parhau gyda'r gwaith.

Dewiswyd dau drefnydd arall i'r Eco, sef Mr Gwyndaf Hughes, Llanrug yn Drefnydd y Plygu a Mr Goronwy Hughes yn Drefnydd Busnes.

Dymuna'r bwrdd golygyddol ddiolch o wirfodd calon i ugeiniau o bobl y fro sy'n gweithio mor galed i sicrhau fod yr Eco'n cael ei gynhyrchu ac yn cyrraedd yr aelwydydd. Bydded i'r Eco fynd o nerth i nerth.

CEFNOGWCH
 EIN
 HYSBYSEBWYR


MODURDY
 MENAI



FFORDD CAERNARFON
 Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
 Perchennog : J. Evans

CROESAIR RHIF 31



AR DRAWS:

- Calendr (7)
- Gwelir hwn mewn gefail (6)
- Rhwygo (6)
- Gweiddi neu grio (8)
- Llinyn (4)
- Y gellir ei osgoi (9)
- Amddiffynfa (4)
- Person ar ei ben ei hun (8)
- Planhigyn y môr (6)
- Archollion (6)
- Ni ddylid gwisgo hwn yn y gwely! (4. 3)

I LAWR:

- Purdeb (7)
- Heb fod i unrhyw ochr arbennig — rhesymol (7)
- Ffrwd bitw (4. 3)
- Pwrpas (5)
- Brith fel enfys (7)
- Gorchudd allanol corff (5)
- Creadur gwirion (5)
- Un sy'n aberthu neu rodidi (7)
- Toreth (7)
- Math o wymon (7)
- a chynffon dimau (3. 4)
- Twyllo (5)
- Math o dŷ (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:

ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

Anfoner y cynigion fel arfer i:

Myrddin Owen,
 32 Stryd Fawr, Llanberis

ATEBION CROESAIR RHIF 30

AR DRAWS: 1. Tlawd; 5. Gofio; 7. Arwyr; 8. Iraid; 9. Anwar; 10. Edliw; 11. Las; 13. Isafswm; 16. Dor; 17. Lot; 19. Ochenaid; 24. Eli; 25. Chwain; 26. Amryw; 27. Arlliw; 28. Ymlid; 29. Thelyn; 30. Lawnt.

I LAWR: 1. Teimlad; 2. Anamserol; 3. Dadeni; 4. Gwalia; 5. Grawys; 6. Dirwy; 12. Ymlaen llaw; 14. Sŵn; 15. Fai; 18. Triswllt; 20. Erchwyn; 21. Anadlu; 22. Danadl; 23. Craith.

ENILLYDD CROESAIR RHIF 30

Mrs. Jennie M. Jones,
 1 Gorffwysfa,
 Llanrug.

Enw Cyfeiriad

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

CHWARAEON

Y BENCAMPWRIAETH A CHWPAN DEANFIELD — O LEIAF —

Bu'n rhaid disgwyl am gêm ola'r tymor diwethaf i benderfynu prun ai Llanrug ynteu Llanberis fyddai Pencampwyr y Gynghrair. Fe gofiwch y pnawn Sadwrn braf hwnnw, y dorf anferth a'r camerâu teledu ar gae Llanbêr, brwdfrydedd cefnogwyr y ddau bentref a'r penderfyniad ym meddyliau a chalonnau'r ddwy garfan o chwaraewyr. Byddai dau bwynt o'r gêm wedi sicrhau'r bencampwriaeth i'r naill neu'r llall, tra'n gadael y collwyr a'r cwpan Deanfield i ail dîm y Gynghrair.

Mae'n ymddangos bellach fod hanes am ail adrodd ei hun, gan ei bod yn ystadegol amhosibl i'r un tîm, ac eithrio Caernarfon Utd., gasglu'r un nifer o bwyntiau ag sy'n barod gan ddau dîm ardal yr Eco, a byddai'n rhaid iddynt golli'r holl gemau sydd ar ôl iddynt er sicrhau fod siawns o gwbl gan y Cofis.

Y mae pum gêm ar ôl gan Lanrug a chwech gan Lanberis. Y mae pedwar pwynt rhyngddynt ond yr hyn sy'n bwysig yw fod bellach gan Lanbêr, yn dilyn eu buddugoliaeth o 13 gôl i 2 yn erbyn y Brifysgol y Sadwrn diwethaf, fantais yn nhermau goliau o blaid ac yn erbyn, ac felly byddai curo gêm ola'r tymor, yn Llanrug eleni, yn sicrhau'r bencampwriaeth iddynt.

Y llwyfan wedi ei osod, a 'grand slam' o ddiwedd i'r tymor hwn eto yn ein haros, os na fydd i un o'r ddau dîm golli cyn hynny. Ai blwyddyn Llanbêr fydd hi eleni, ynteu fydd Llanrug yn dal eu gafael ar y bencampwriaeth y daethant bellach bron i'w hystyried fel eu heiddo eu hunain.

Mae'n rhaid cofio hefyd fod diddordeb yn parhau gan y ddau dîm mewn nifer o gwpanau, a sefyllfa i'w chwenychu yw fy un i, fel sylwebydd niwtral o wybod y bydd i'r ardal o leiaf ddau dlws ar ddiwedd y tymor.

PEN Y GYNGHRAIR 21/4/79

	ch	e	cyf	colli	o.b.	y.e.	pwyntiau
Llanrug	23	21	1	1	94	25	43
Llanberis	22	19	1	2	92	21	39

TÎM PÊL-DROED CYNTA'R WAUNFAWR, 1912-13

Oes rhywun yn cofio'r hogiau yma? Yn anffodus mae pob un wedi marw erbyn hyn. Yr hyn sy'n rhyfedd ydy fod tîm a chae yn y pentref yn 1912, a dyma ni yn 1979 heb yr un o'r ddau.



Y reffari oedd Dave Jones, a'r chwaraewyr, Wil Chum, Lay y golgeidwad, Bobi Llyn Afon, Twm Ty'n Twll, Wil Bach Pant y Waun, Twm Sgweiar, Now Tom, Ifan Collfryn, Dafydd Hughes, Robin Morris, Robin Terrace a Robin Lora.

Badminton

Dylan Williams, un ar ddeg oed o Fryn Eglwys, Penisarwaun fydd yr ieuengaf o bump o blant y pentref i gystadlu ym Mhencampwriaeth Ieuencid Gogledd Cymru yn yr Wyddgrug ar Ebrill 29. Mrs Rosemary Davies, o'r Waun, fydd yn mynd yno efo nhw — ac mae'r pump yn aelodau o Glwb Badminton Caernarfon. Y pedwar arall yw Michael Coombs, Morris Jones, Alun Jones a Bethan Jones. 'Does ond blwyddyn er pan ddechreuodd Dylan ymddiddori

yn y gêm, sy'n un o brif ddiddordebau'r teulu. Mae ei dad, Geraint, yn gyd-aelod ag ef yng Nghlwb Caernarfon, a'i fam, Avril yn aelod o Glwb Llanberis. Efo pedigri o'r fath, disgwyliwn ddyfodol disglair i Dylan yntau!

Pob lwc i'r pump ohonynt yn y Wyddgurg.

PENCAMPWYR

Llongyfarchiadau i Glwb Llanberis, deallaf eu bod newydd ennill Pencampwriaeth yr Ail Ddosbarth heb golli ond un gêm drwy'r tymor.

Gemau'r mis

LLANBERIS

31/3/79

Rownd Gyntaf Cwpan Moorings
Llanberis 7 Harlech 1

Llanberis yn colli 1-0 hanner amser, ond mae'n rhaid fod dwrdio go galed wedi mynd gyda'u paned gan iddynt daro'r castellwyr am saith yn yr ail hanner.

3/4/79

Llanberis 5 Portdinorwig 0

Gwilym Williams sgriodd unig gôl yr hanner cyntaf a rhwydodd ddwywaith wedyn yn yr ail. Ray Harding ac Iwan Evans yn cael y ddwy arall mewn buddugoliaeth hawdd.

7/4/79

Rownd Cyntaf Cwpan Alves
Caernarfon Res. 0 Llanberis 6

Gêm hawdd arall a Keith Davies, Einion Holland (2), Iwan Evans, Sel Allsup a Ray Harding yn sicrhau eu ffordd i'r ail rownd.

14/4/79

Cwpan Penrhyn — Rownd Gyntaf
Llanberis 2 Pwllheli 0

Ail chwarae'r gêm gyfartal ym Mhwllheli. Ray Harding yn sgrio ddwywaith a dyma'r hogia yn ail rownd cwpan arall.

17/4/79

Llanberis 4 Bethesda 1

Hanner cyntaf digon cyfartal, un gôl yr un amser paned. Kelvin Jones (2), Ray Harding a Hugh Griffith yn sicrhau'r pwyntiau.

21/4/79

Llanberis 13 C.P.G.C. (Bangor) 2

Eu trydedd gêm mewn wythnos a'r hawddaf drwy'r tymor. 'Does dim lle i gwyno gan Lanbêr, ond tîm gwyliau'r Coleg oedd hwn, fe gofiwch i'w tîm cryfaf, pan fo'r myfyrwyr i gyd ar gael, guro Llanrug o 5 gôl i 4 tua dechrau'r tymor.

Sefyllfa anfoddhaol ac mae'n anodd dychmygu beth fyddai'r ateb iddi. Yn sicr dylai trefnwyr y Gynghrair geisio, rhywsut, sicrhau mai'r un tîm fyddai'n cynrychioli'r Coleg yn erbyn y rhai sy'n agos at ei gilydd ar ben neu yng ngwaelod y tabl. Gêm 'siot am gôl' oedd hon, a llwyddodd Iwan Evans 5 gwaith, Einion Holland 4, Ray Harding 3 a Kelvin Jones y llall.

Dwy gic gosb ddaeth â goliau'r myfyrwyr.



Dylan yn ei grys pêl-droed, mae cryn diddordeb ganddo mewn cicio'r bêl hefyd.

LLANRUG

31/3/79

4ydd Rownd Cwpan J.W. Lees
Llanfairpwll 1 Llanrug 0

Dechrau siomedig i'w mis hwy, a Llanrug yn methu â sgorio am y tro cyntaf ers mis Ebrill y llynedd. Nid o ddiffyg ymgais, er hynny, 'doedd ond un tîm yn y gêm yn yr ail hanner. Phill Tottey yng ngôl yr ynyswyr, y mwd a'r pyst yn eu rhwystro.

3/4/79

Talysarn 0 Llanrug 4

Dwy gôl yr un gan Dic Owen a Vernon Lloyd yn ennill y gêm i Lanrug.

Cwpan Iau Gogledd Cymru
5ed Rownd

Llanrug 1 Caernarfon Utd 1
Caernarfon Utd. 3 Llanrug 5

Dwy gêm gyffrous, ond Llanrug yn llawn haeddu eu lle yn y Rownd Gyn-derfynol yn yr ail chwarae. 'Roeddynt 5 gôl ar y blaen erbyn hanner amser, yn wir 'roedd yn rhy hawdd a gadawsant i Gaernarfon ddod yn ôl i'r gêm. Daeth y chwiban olaf ag ochenaid o ryddhad i'r cefnogwyr.

Sgriodd Vernon Lloyd 4 gwaith a Dic Owen y llall ac mae siawns da ganddynt o gyrraedd y Rownd Derfynol eto eleni gan mai Harlech fydd eu gwrthwynebwyr yn y rownd nesaf. Y mae Llanrug wedi eu curo ddwywaith y tymor hwn yn barod.

10/4/79

Bethesda 2 Llanrug 5

Hefin Jones wrth ei fodd yn y mwd ac yn sgrio ddwywaith i setlo'r gêm ar ôl i John Hammond, Vernon Lloyd a Dic Owen gael un yr un.

17/4/79

Bangor Ath. 1 Llanrug 3

Dic Owen yn sgrio tair i ennill gêm ddigon diflas.

19/4/79

Llanrug 2 C'fon Utd. 1

Dic Owen yn cael y ddwy i ennill y pwyntiau yn eu trydydd gêm yn erbyn y Cofis yn ystod y mis.

CYSTADLEUAETH 5 BOB OCHR TARIAN YR HERALD

Uchafbwynt y mis i Lanrug oedd ennill y gystadleuaeth hon i dimau'r Gynghrair, y gystadleuaeth gyntaf o'i bath, ac fe'i cynhaliwyd yn Neuadd Chwaraeon Arfon ym Mangor.

Alan V. Owen oedd eu golgeidwad am y noson oherwydd anaf i Nigel Hardwidge, ac ni fedrodd yr un o'r timau eraill sgrio yn ei erbyn!

Y canlyniadau oedd:

Llanrug 5 Porthmadog 0
Llanrug 1 Hiracl 0

Yr oedd un gôl gan Hefin Jones yn y Rownd Derfynol yn erbyn Caernarfon Utd. yn ddigon ennill y darian iddynt.

Yn y garfan oedd: A.V. Owen Ken Jones, Hefin Jones, Vernon Lloyd, Peter Roberts, John Hammond a Gwynfor Owen.